

ANTUR NANTLLE Cyf



ADRODDIAD AR DWRISTIAETH YN NYFFRYN NANTLLE



© Panorama Cymru

OWAIN ROWLANDS a GERAINT THOMAS

Mai 2006

Partneriaeth
Talysarn a Nantlle



Cynnwys

Rhan	Tudalen	Cynnwys
1	3	Cyflwyniad
2	4	Pwrpas a Methodoleg
3	5-7	Proffil Cyffredinol
4	8-15	Sefyllfa Bresennol y Dyffryn
5	16-23	Busnesau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn yr ardal.
6	24-41	Awgrymiadau i'r Dyfodol
7	42	Casgliadau a Chloriannu
8 - 10	43-68	Atodiadau

Rhan 1 - Cyflwyniad

Mae Cymru wedi denu twristiaid i fwynhau ei golygfeydd godidog a'i hanes unigryw ers canrifoedd ac mae'r nifer o lyfrau ac erthyglau sydd wedi eu cyhoeddi yn olrhain hanes arlunwyr, cadwraethwyr a haneswyr sydd wedi teithio i Gymru yn profi hyn. Erbyn heddiw mae Cymru yn cael ei chysidro fel cyrchfan bwysig i dwristiaid o bob cwr o'r byd. Yn ôl ffigyrau Bwrdd Croeso Cymru mae'r diwydiant twristiaeth yn cyfrannu tua £3 biliwn y flwyddyn i'r economi. Mae gan Gymru atyniadau o bob math i'w gynnig ond mae'n debyg mai'r tirwedd a'r golygfeydd yw'r prif atyniad. O ran hyn adnabyddir Gwynedd fel un o'r prif ardaloedd twristiaeth yng Nghymru.

Mae tua 6 miliwn o ymwelwyr yn ymweld â Gwynedd bob blwyddyn, llawer ohonynt yn dod i fwynhau mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri neu arfordiroedd Llŷn a Meirionydd. Ardal sydd ar gyron y rhain yw Dyffryn Nantlle, ardal sy'n rhedeg o odre'r Wyddfa i arfordir Sir Gaernarfon. Ond er hyn nid yw wedi datblygu fel ardal sy'n enwog iawn fel cyrchfan i dwristiaid.

Gwelir map o ardal Dyffryn Nantlle yn yr atodiad..

O ganlyniad i hyn trefnodd Antur Nantlle fel rhan o'i gyfarfod blynyddol i drafod twristiaeth yn y Dyffryn. Roedd Dewi Davies o Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yno i siarad am y diwydiant. O ganlyniad ffurfiwyd grŵp er mwyn edrych ar y sefyllfa ac i ddatblygu strategaeth dwristiaeth i'r ardal. Comisiynwyd yr adroddiad yma felly er mwyn casglu gwybodaeth am fusnesau sydd ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaeth i dwristiaid, a hefyd darganfod lle mae rhwystrau neu fannau gwan yn y farchnad. Yn ogystal ceisiwn nodi rhai argymhellion a syniadau i ddenu twristiaid a nodi ffynonellau ariannu posib. Ariannwyd y gwaith ymchwil a'r adroddiad gan Gronfa Wledig Cyngor Gwynedd a Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhan 2 - Pwrpas a Methodoleg

Pwrpas yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am y busnesau sydd eisoes yn manteisio ar dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle yn ogystal â darganfod cyfleon twristiaeth newydd. Roedd yr ymchwiler yn cynnwys ymchwiler desg am sefyllfa dwristiaeth bresennol yng Nghymru ac yn fanylach yng Ngwynedd. Roeddem am brofi pa mor bwysig yw twristiaeth wedi bod i economi Gwynedd ac fel y gallai fod i Ddyffryn Nantlle.

I gyd-fynd â'r ymchwiler cyffredinol am Wynedd roedd angen casglu data manwl am y sefyllfa yn Nyffryn Nantlle. Oherwydd nad oes data manwl wedi ei gyhoeddi cynlluniwyd nifer o holiaduron er mwyn creu proffil manwl o'r Dyffryn.

Cynhyrchwyd tri prif holiadur sef :-

- 1) Holiadur Darparwyr - Roedd hwn yn holiadur wedi ei anelu yn arbennig ar gyfer y rhai sydd yn darparu gwasanaeth ac atyniadau ar gyfer twristiaid. Gwnaethpwyd rhestr o'r holl ddarparwyr ac ymweld â hwy wyneb yn wyneb.
- 2) Holiadur Defnyddwyr - Roedd hwn yn holiadur ar gyfer y rhai sydd eisoes yn defnyddio Dyffryn Nantlle fel eu canolfan gwyliau neu sydd yn ymweld ag atyniadau yma
- 3) Holiadur Darparwyr Busnesau Cynhenid - Pwrpas yr holiadur hwn oedd darganfod effaith twristiaeth ar fusnesau sydd yn bodoli eisoes ond sydd ddim yn cynnig gwasanaeth penodol i dwristiaid. Gwnaethpwyd 2 fersiwn, un ar gyfer busnesau Dyffryn Nantlle ac un ar gyfer busnesau ardaloedd eraill. Roedd hyn er mwyn darganfod y gwahaniaeth rhwng ardaloedd gyda hanes o ddiwydiant twristiaeth gryf a Dyffryn Nantlle.

Rhan arall o'r ymchwiler oedd cyfarfod pobl sydd â syniadau ynglŷn â sefydlu busnesau twristiaeth a hefyd ymchwilio i ffynonellau arian posib i helpu gydag unrhyw brosiect penodol. Hefyd sut help gellid ei gael i godi ymwybyddiaeth o'r ardal a marchnata busnesau at atyniadau presennol.

Hyrwyddwyd y gwaith drwy adroddiad yn yr 'Caernarfon and Denbigh Herald' a rhoddwyd rhif ffôn er mwyn i'r cyhoedd gysylltu os oedd ganddynt ddiddordeb cyfrannu at yr astudiaeth. Gobeithir trefnu cyfarfod cyhoeddus i gasglu mwy o syniadau yn nes at ddiwedd y cyfnod ymchwiler.

Rhan 3 - Proffil Cyffredinol o'r Diwydiant Twristiaeth

- 3.0 Er mwyn ein galluogi i ddeall y diwydiant twristiaeth yn Nyffryn Nantlle mae'n bwysig trafod y diwydiant yng nghyd-destun Cymru ac yng Ngwynedd. Mae hyn yn rhoi i ni ddarlun o sefyllfa'r diwydiant yn gyffredinol a rhoi patrwm o dueddiadau cyffredinol ymwelwyr.

Mae'r data am Gymru yn dod allan o ymchwil Bwrdd Croeso Cymru (BCC) ac wedi ei gyhoeddi ar eu gwefan. Mae'r ffeithiau wedi eu cynhyrchu gan eu Hadran Strategaeth.

- 3.1 Mae twristiaid yn gwario dros £8 miliwn y dydd ar deithiau yng Nghymru gyda chyfanswm hyn tua £3 biliwn y flwyddyn. O ran yr economi gyfan mae twristiaeth yn cyfrannu 3.7% o werth mewn termau uniongyrchol. Nid yw'r ffigwr yma yn dangos y gwerth anuniongyrchol.
- 3.2 Mae 100,000 o bobl yn cael eu cyflogi mewn twristiaeth yng Nghymru ac mae'r ffigwr yma yn 10% o'r holl weithlu.
- 3.3 Yn ystod 2004 roedd y nifer o deithiau gan drigolion Prydain i Gymru yn 8.9 miliwn, roedd hwn yn lleihad o'r ddwy flynedd flaenorol ond roedd hyn yn cyd-fynd â'r trend cyffredinol yng ngwariant pobl.
- 3.4 Daeth 1.01 miliwn o ymwelwyr tramor i Gymru yn 2004 ac roedd hwn yn gynydd o 13.3% o'r blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn profi bod hyder teithwyr wedi dychwelyd ar ôl terfysgaeth Medi 11 2001. Cyfrannodd ymwelwyr o dramor £311 miliwn i'r diwydiant.
- 3.5 Er y cynnydd mewn twristiaeth o dramor mae 93% o deithiau twristiaeth i Gymru yn dod o Brydain. Mae 70% o'r rhain yn dod ar wyliau, 20% yn ymweld â theulu neu ffrindiau a 7% ar daith fusnes.
- 3.6 Yn ôl adroddiad arolwg Busnes Twristiaeth 2005 gan y Bwrdd Croeso roedd 48% o fusnesau twristiaeth Cymru yn adrodd eu bod wedi cael mwy o ymwelwyr yn ystod haf 2005 na 2004. Hefyd roedd 50% yn adrodd cynnydd yn eu trosiant yn yr un cyfnod.
- 3.7 Mae tua 50% o'r holl dwristiaid i Gymru yn dod i'r ardaloedd cefn gwlad gyda'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn cynnwys cerdded, chwaraeon dŵr ac ymweld ag atyniadau hanesyddol. Yr atyniad mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan sy'n denu dros 600,000 o bobl yn flynyddol.
- 3.8 Mae gan Gymru dros 80,000 o fusnesau sy'n cynnig llety i ymwelwyr, a defnyddir y llety yma ar 53% o'r teithiau i Gymru. Mae'r gwariant yma yn cyfrif 29% o holl wariant gan dwristiaid.

- 3.9 Yn ôl arolwg gan Fwrdd Croeso Cymru sy'n dangos dosbarthiad rhanbarthol twristiaid, Gogledd Cymru sydd yn denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr gyda 2.4 miliwn yn ymweld â'r ardal.
- 3.10 Ymwelwyr o Loegr yw'r canran uchaf o dwristiaid i Gymru. Mae canran uchaf ohonynt o'r Gogledd Orllewin yn cynnwys Glannau Merswy a Gorllewin y Canolbarth. Mae'n ddifyr nodi hefyd mai ond 10% o'r ymwelwyr i Gymru sydd yma fel eu prif wyliau blynyddol.

Daw'r ffeithiau am Wynedd allan o 'Strategaeth Twristiaeth Gwynedd 2003 - 2008 Drafft Ymgynghorol', hefyd ceir ffigyrau'r Uned Ymchwil sydd wedi eu casglu gan gwmnïau GTS (UK), TNS Travel and Tourism a STEAM.

- 3.11 Daeth bron i 6 miliwn o ymwelwyr i Wynedd yn 2000 ond erbyn 2004 roedd y nifer yma wedi codi i dros 7 miliwn.
- 3.12 Cyfrannodd twristiaeth £692 miliwn i economi Gwynedd yn uniongyrchol ac roedd 12,110 o bobl yn gweithio yn y diwydiant.
- 3.13 Mae mwyafrif o'r busnesau twristiaeth yng Ngwynedd yn fusnesau bach annibynnol gyda'r rhan helaeth ohonynt yn fusnesau teuluol.
- 3.14 Mae dros 1,700 o fusnesau bach neu ganolig yng Ngwynedd yn ymwneud â thwristiaeth, naill ai yn cynnig llety neu atyniad.
- 3.15 Mae tua 840 milltir sgwâr o dir Gwynedd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri. O fewn y parc Yr Wyddfa yw'r atyniad mwyaf poblogaidd ac yn ôl 'Strategaeth Parc Cenedlaethol Eryri' cerddodd dros 197,000 o ymwelwyr i'r copa yn 2001.
- 3.16 Yn ogystal â Bwrdd Croeso Cymru mae Gwynedd yn cael ei chynrychioli gan ddwy bartneriaeth dwristiaeth ranbarthol sef, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

Mae'r rhestr isod gan STEAM 2000 i Gyngor Gwynedd yn dangos toriad yr ymwelwyr i Wynedd.

- Ymwelwyr dydd **17%**
- Ymwelwyr ar wyliau **78%** (25% o'r rhain ar wyliau atodol / ychwanegol)
- Ymweld â chyfeillion a pherthnasau **7%**

STEAM 2000 wedi ei gyhoeddi yn Strategaeth Twristiaeth Gwynedd

- 3.17 Mae adroddiad TNS o ymwelwyr Gwynedd yn dangos proffil i ni o'r math o ymwelwyr sydd yn dod i Wynedd. Mae 48% o'r ymwelwyr rhwng 35 a 54 mlwydd oed. Mae'r mwyafrif o'r rhai sydd ar wyliau yma yn rhan o deulu ond mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr dydd yn oedolion hŷn yn teithio heb blant.
- 3.18 Mae canran uchel o ymwelwyr Gwynedd ar deithiau byr, fel arfer ar deithiau maent wedi trefnu eu hunain. 4.3 noson yw cyfartaledd arhosiad ymwelwyr yng Ngwynedd i'w gymharu â 5.45 yng ngweddill Cymru.
- 3.19 Mae 78% o ymwelwyr i Wynedd yn dychwelyd am yr ail dro neu fwy, gyda 3 allan o bob deg wedi bod yng Ngwynedd mwy na 20 o weithiau.
- 3.20 Y sector hunan-ddarpar yw'r cryfaf yng Ngwynedd gyda 52,305 o leoedd gwely allan o gyfanswm o 88,839 yn cynnig y gwasanaeth yma. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys y meysydd carafannau. Llety gwely a brecwast bychan yw'r nesaf o ran nifer. Ychydig iawn o westai mawr sy'n rhan o gadwyn sydd yng Ngwynedd. Mae prinder cyffredinol o lety sydd wedi ei raddio yn 4 / 5 seren gan y Bwrdd Croeso.
- 3.21 Mae ychydig llai na chant o atyniadau ymwelwyr yng Ngwynedd. Mae 8 gyda seren cymeradwyaeth y Bwrdd Croeso a 10 gyda gweithgaredd achrededig (*Bwrdd Croeso Cymru 2003*)
- 3.22 Mae Gwynedd yn adnabyddus am ei gwyliau gweithgaredd gyda 30% - 40% o'r ymwelwyr yn cerdded neu dramwyo (*Bwrdd Croeso Cymru 2000*). Mae gan Wynedd dair canolfan awyr agored genedlaethol sef Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai, Canolfan Genedlaethol Dŵr Gwyn Tryweryn a Chanolfan Beicio Mynydd Coed y Brenin. Mae gan Wynedd hefyd gyfleusterau hwylio a morwrol o safon gyda'r marinas yn cynnwys Pwllheli, Caernarfon a'r Felinheli.
- 3.23 Fe sefydlwyd y brand Eryri Mynyddoedd a Môr yn 1995, sy'n bartneriaeth rhwng y Cynghorau Sir a'r sector breifat. Maent yn cynhyrchu llenyddiaeth marchnata yn flynyddol ac yn ei ddosbarthu ym Mhrydain ac Ewrop.
- 3.24 Mae 9 Canolfan Wybodaeth swyddogol yng Ngwynedd ac maent yn cael eu hariannu gan Gyngor Gwynedd. Yn y blynyddoedd diweddar mae mwy o ymwelwyr sy'n dod i Wynedd yn archebu llety a chael gwybodaeth oddi ar y we.

Rhan 4 - Sefyllfa Bresennol yr Ardal

4.1 ARGRAFFIADAU BUSNESAU LLEOL

Gofynnwyd i'r holl fusnesau beth oedd eu hargraffiadau o'r sefyllfa yn y Dyffryn ar hyn o bryd. Bron yn ddiethriad cytunwyd fod y sefyllfa yn eithaf gwael (7 busnes¹), gyda diffyg atyniadau yn un o'r prif resymau a roddwyd am hyn (12 busnes¹). Roedd llawer yn gresynu nad oedd datblygiadau o bwys yn digwydd yn y Dyffryn (5 busnes¹), a bod cyfle wedi ei golli ers blynyddoedd i gael datblygiad gwerth chweil yn chwarel Dorothea.

Nodwyd hefyd fod diffyg digwyddiadau yn y Dyffryn yn broblem (2 gwmni¹), yn enwedig o'i gymharu ag ardal fel Llanberis neu Pwllheli.

Ar yr ochor bositif nodwyd fod gan Ddyffryn Nantlle lawer i'w gynnig i bobol sydd yn dod yma i aros, a bod cydweithio da rhwng cwmnïau yn esiampl i ardaloedd eraill (gweler 3.7), a bod yr atyniadau sydd ar y gweill yn codi gobaith at y dyfodol (er bod rhaid cyfaddef fod nifer o'r cynlluniau a grybwyllwyd naill ai'n destun mân-siarad lleol, neu'n freuddwyd tymor hir uchelgeisiol nifer o unigolion).

¹ Atodiad 8.21 a 10.14

4.2 MAINT Y DIWYDIANT

Mae'n amlwg i'r rhan fwyaf o'r bobol sydd yn ymweld â'r Dyffryn mai bach iawn yw maint y diwydiant twristiaeth yma o'i gymharu ag ardaloedd eraill cyfagos. Aethpwyd ati i gymharu Dyffryn Nantlle â phump o ardaloedd cyfagos, sydd i bob pwrpas yn amgylchynu'r Dyffryn yn ddaearyddol. Teg yw nodi nad oes un ardal yn gallu cymharu yn union â Dyffryn Nantlle (mae Pwllheli, Porthmadog a Chaernarfon yn drefi arfordirol a chymaint mwy na phentrefi'r Dyffryn, ac er bod Beddgelert yn ardal llawer llai, mae'n bosib cymharu'r ddwy ardal fynyddig Llanberis a Beddgelert ac ardal fynyddig Dyffryn Nantlle), ond gellir yn hawdd cymryd cyfartaledd y 5 ardal yma (fel petai) a'u cymharu â Dyffryn Nantlle, gan ei fod yn Ddyffryn sydd yn fynyddig, yn arfordirol, yn wledig ac yn fwy trefol.

Canfuwyd fod 25 o fusnesau twristiaeth yn Nyffryn Nantlle, ac fe gymerodd 23 o'r rhain ran yn yr astudiaeth. O'r 25 yma mae 7 maes carafannau/gwersylla; 4 gwesty; 3 gwesty bach (guesthouse) neu B&B; 3 atyniad; 3 canolfan addysgiadol; 2 dafarn (sy'n cadw ymwelwyr); 2 werthwr arbenigol ac 1 darparwr bythynnod gwyliau¹. Mae'r 23 sefydliad a holwyd yn cyflogi 67 o weithwyr llawn amser, a 105 o weithwyr rhan amser¹. Gwestai yw'r cyflogwyr llawn amser mwyaf (19 o swyddi) ond meysydd carafannau ydi'r cyflogwyr mwyaf llawn amser a rhan amser (35 o swyddi)¹.

Yn ôl nifer y gwelyau a ddarparir, safleoedd carafannau statig sydd yn cyfrannu'r mwy o welyau (332 o safleoedd yn cynnig 4 gwely yr un ar gyfartaledd - sef 1328 o welyau). Mae 226 o safleoedd carafannau symudol yn y Dyffryn, a 99 o welyau mewn gwestai². Mae'n ymddangos fod diffyg mawr mewn llefydd i aros yn y

farchnad ganol (h.y. rhwng gwyliau gwersylla ar un llaw a gwesty mawr ar y llaw arall), gyda dim ond 26 o welyau mewn tafarndai, B&Bs, gwestai bach a bythynnod gwyliau hunan ddarpar², Mae 121 o leoedd aros hefyd mewn canolfannau addysgiadol.

Yn ôl maint cwmnïau, yr atyniadau ydi'r sefydliadau mwyaf yn ariannol, gyda 2 allan o 3 sefydliad â throsiant o dros £¼ miliwn y flwyddyn³. Mae'n ymddangos mai bach iawn yw nifer o'r sefydliadau gyda 8 allan o 23 neu 34% o'r sefydliadau â throsiant yn llai na £50,000 y flwyddyn³.

¹ Atodiad 8.1

² Atodiad 8.5

³ Atodiad 8.3

4.3 RHWYSTRAU I'R DIWYDIANT

Gofynnwyd i'r holl gwmnïau (y darparwyr a'r busnesau cynhenid) beth, yn eu golwg nhw, ydi'r rhwystrau i ddenu ymwelwyr i'r Dyffryn. Gellir rhannu'r atebion yn dri chategori.

- **Rhwystrau Haniaethol** Mae'r rhain yn rhwystrau eang fyddai yn aml bron yn gwbl amhosib mynd i'r afael â nhw (ee tydi'r Dyffryn ddim digon agos i'r Wyddfa!). Mae eraill yn rhwystrau mwy penagored fel 'Diffyg atyniadau'. Gall y sylwadau yma gyfrannu tuag at strategaeth ddatblygu ehangach na phrosiectau unigol, ond maent yn dal o fudd i'r astudiaeth.
- **Rhwystrau Cymdeithasol** Mae'r rhain yn broblemau sydd yn rhan o broblem ehangach o fewn y Dyffryn a thu hwnt, fyddai eto yn anodd mynd i'r afael a nhw.
- **Rhwystrau Ymarferol** Dyma'r math o rwystrau fyddai modd cael atebion ar eu cyfer, ac a allai arwain at gynlluniau pendant i ddatblygu'r diwydiant ymwelwyr yn y Dyffryn.

RHWYSTRAU HANIAETHOL

Diffyg Atyniadau
Dim i dynnu pobol allan o'u ceir yn y Dyffryn
Methiant Datblygu Chwarel Dorothea
Dim darpariaeth ar gyfer plant

RHWYSTRAU CYMDEITHASOL

Blerwch yn yr ardal a diffyg cynnal a chadw adeiladau
Pobol ifanc ar y strydoedd yn y nos
Problemau trafndiaeth gyhoeddus (yn lleol a rhanbarthol)
Diffyg diddordeb yn lleol
Diffyg gwasanaethau cyhoeddus
Diffyg buddsoddiad yn yr ardal
Lefelau heddlu
Diffyg cydweithredu

RHWYSTRAU YMARFEROL

Polisiau cynllunio llywodraeth leol
Diffyg marchnata yn lleol ac yn genedlaethol
Diffyg rhannu gwybodaeth rhwng un busnes a'r llall.
Diffyg lleoedd bwyta yn y Dyffryn
Diffyg lleoedd aros
Polisiau arwyddion brown Cyngor Gwynedd
Cyfyngu'r tymor gwersylla.
Trafferthion cael staff wedi eu hyfforddi
Diffyg parcio
Pris atyniadau i ymwelwyr
Diffyg mynediad i atyniadau naturiol (ee llynnoedd ac afonydd)

Mae ambell i baradocs o fewn y sylwadau, gyda 5 darparwr yn poeni am lefelau cynnal a chadw yn y pentrefi, tra ar y llaw arall roedd nifer o'r busnesau cynhenid yn credu fod y pentrefi yn daclus iawn. Doedd 'run o'r busnesau cynhenid yn credu fod cynnal a chadw yn broblem.

Rhwystrau mwy penodol fyth a soniwyd amdanynt oedd:

Diffyg llwybr cerdded rhwng pentref Rhyd Ddu a maes parcio troed yr Wyddfa.

Ers i bentref Dinas Dinlle gael ei ddynodi yn wastatir llifogydd, mae'r busnesau wedi cael trafferthion gyda rheolau cynllunio ac yswiriant¹.

O'u cymharu ag ardaloedd eraill mae'r rhwystrau haniaethol a chymdeithasol yn eithaf tebyg (er mai'n deg dweud fod pobol Beddgelert yn eithaf bodlon eu byd, gyda 80% yn dweud fod sefyllfa twristiaeth yn dda iawn yno², a 100% yn dweud fod Beddgelert wedi datblygu'n llawn ym maes twristiaeth³). Dywedodd 40% o fusnesau Llanberis nad oedd digon o atyniadau yno hyd yn oed!⁴. Rhestrwyd problemau cymdeithasol fel pobol ifanc ar y stryd; diffyg cynnal a chadw; diffyg buddsoddiad; agwedd pobol leol; marchnata; rheolau cynllunio i gyd mewn nifer o ardaloedd eraill⁵. Cafwyd problemau arwyddion brown yn codi eu pennau hefyd mewn ardaloedd eraill.

¹ Atodiad **8.18** a **10.11**

² Atodiad **9.41**

³ Atodiad **9.33**

⁴ Atodiad **9.25**

⁵ Atodiad **9.11; 9.25; 9.39; 9.51** a **9.64**

4.4 BUDD TWRISTIAETH I FUSNESAU'R DYFFRYN

Yn sicr gwelir nad yw busnesau Dyffryn Nantlle yn elwa llawer o dwristiaeth o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Gwelir fod twristiaeth yn cyfrannu **5.3%** at fusnes y busnesau cynhenid yn y Dyffryn ar gyfartaledd¹, tra bod cyfartaledd y 5 ardal arall sydd yn rhan o'r astudiaeth yn **43%**². Mae hyn yn codi i **82.5%** ym Meddgelert³. Gellir dehongli nad oedd un swydd ychwanegol yn bodoli o'r holl fusnesau cynhenid a holwyd yn deillio o dwristiaeth, a 'doedd ond dwy neu dair swydd dymhorol yn cael eu creu yn ystod y tymor ymwelwyr⁴. Mae hyn yn gyfartaledd o **0.25** swydd dymhorol i bob busnes a holwyd. Mae'r ffigwr yn Llanberis yn **2.9** swydd llawn amser a **2.0** swydd rhan amser ym mhob busnes yn ychwanegol⁵, ac ym Meddgelert mae'r ffigwr yn **3.5** swydd llawn amser a **2.0** swydd rhan amser⁶.

Mae hyn yn arwain at amrywiad tymhorol mewn busnes. Mae'r amrywiad rhwng y gaeaf a thymor yr ymwelwyr i fusnesau yn y Dyffryn yn **+8%**⁷, mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o **+92.25%** i'r holl ardaloedd eraill⁸, yn codi i **+140%** yn Llanberis⁹. Yn wir roedd 40% o'r busnesau cynhenid yn sylwi ar ddim cynnydd o gwbl mewn busnes yn yr haf, ac roedd un o'r rhain yn dafarn ac yn sôn am ddirywiad mewn busnes yn ystod y tymor ymwelwyr.

Ar yr ochor bositif, roedd **69.5%** o'r darparwyr twristiaeth wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymwelwyr sydd yn dod i'r Dyffryn, a dim ond **17.33%** oedd wedi gweld dirywiad yn eu busnes dros y blynyddoedd diwethaf¹⁰. Yn anffodus, dim ond 1 o'r 10 busnes cynhenid a holwyd oedd yn nodi cynnydd mewn busnes o ymwelwyr, gyda **50%** yn gweld dirywiad¹¹.

Rhodddwyd nifer o resymau dros y twf ym musnes y darparwyr yn cynnwys mwy o bobol yn cymryd gwyliau byr; cyfleustra marchnata'r cwmni ar y wê; y cynnydd parhaol mewn gwyliau awyr agored ac arbenigrwydd y cwmnïau mewn marchnad arbennigol¹².

Rhai o'r rhesymau a roddwyd dros ddirywiad yn y farchnad oedd y cynnydd mewn pris petrol, pryd a gwedd y pentrefi a rheolau iechyd a diogelwch llym¹³. Roedd nifer o sylwadau, yn anffodus, yn gwrth-ddweud ei gilydd, e.e. cynnydd mewn busnes oherwydd bod cost gwyliau tramor wedi codi / dirywiad mewn busnes oherwydd gwyliau tramor rhad; cynnydd mewn busnes oherwydd ffyrdd gwell / dirywiad mewn busnes oherwydd y ffordd osgoi!

- 1 Atodiad **10.2**
- 2 Atodiad **9.68**
- 3 Atodiad **9.29**
- 4 Atodiad **10.4**
- 5 Atodiad **9.17**
- 6 Atodiad **9.31**
- 7 Atodiad **10.3**
- 8 Atodiad **9.69**
- 9 Atodiad **9.16**
- 10 Atodiad **8.8**
- 11 Atodiad **10.5**
- 12 Atodiad **8.9**
- 13 Atodiad **8.10**

4.5 ATYNIADAU PRESENNOL Y DYFFRYN

Yn amlwg, mae ystod eang o fusnesau twristiaeth yn y Dyffryn, ond yn rhyfeddol, does yna fawr o'r rhain yn fusnesau arbenigol. Ac eithrio'r tair canolfan addysgiadol, dim ond Maes Awyr Caernarfon; Lynn R Papercrafts a Railways Unlimited ellir eu disgrifio fel darparwyr arbenigol. Gan fod Dyffryn Nantlle yn cystadlu gyda nifer o ardaloedd llewyrchus iawn yn lleol ym maes twristiaeth cyffredinol, mae'n rhyfeddol na fyddai mwy o gwmnïau yn mentro datblygu arbenigedd mewn marchnadoedd 'niche'. Mae hyn yn cael ei danlinellu gan yr ystadegau a roddwyd gan ymwelwyr dros ddod i'r Dyffryn yn y lle cyntaf. Roedd nifer o bobol yn dod i'r Dyffryn i ddeifio; pysgota; beicio; motor beicio; cerdded a bywyd gwyllt¹. Byddai i un neu ddau o'r sefydliadau ddatblygu arbenigedd yn un o'r meysydd yma yn eu rhoi ar y blaen wrth gystadlu â chwmnïau tebyg mewn ardaloedd cyfagos.

Un elfen bositif iawn a welwyd o'r astudiaeth oedd y ffigurau am y lefelau o gwsmeriaid oedd yn dychwelyd at fusnesau. Gwelwyd fod y cyfartaledd cyfan yn **55.57%** o gwsmeriaid yn dychwelyd dro ar ôl tro². Mae'r ffigur yma yn cynnwys ffigur o **96.6%** gan y canolfannau addysgiadol. Mae'r ffigur yma braidd yn gamarweiniol gan fod y canolfannau yma yn cyfri cwmnïau mawr a chyrrff cyhoeddus fel eu cwsmeriaid, sydd yn dychwelyd i gynnal cyrsiau eto, ond nid yn angenrheidiol gyda'r un bobol. Gan beidio cynnwys y ffigur am y canolfannau addysg gwelir fod **48.73%** o gwsmeriaid yn dychwelyd at y darparwyr yn y Dyffryn³.

¹ Atodiad **8.6**
²⁺³ Atodiad **8.7**

4.6 ELWA O GYMORTH CYHOEDDUS

Yn rhyfeddol, dim ond **33%** o'r holl ddarparwyr a holwyd oedd wedi elwa o gymorth ariannol cyhoeddus, a **29%** oedd wedi elwa o gymorth ymarferol gan gyrff cyhoeddus (mae hyn yn cynnwys Bwrdd Croeso Cymru)¹. Rhoddwyd nifer o resymau dros y diffyg yma yn cynnwys 'heb edrych' a 'gormod o waith papur'.

¹ Atodiad **8.11**
² Atodiad **8.12**

4.7 CYDWEITHIO

Gwelwyd fod gan yr ardaloedd eraill sydd yn rhan o'r astudiaeth, i gyd fudiadau i alluogi busnesau i gydweithio. Mae rhai fel Siambr Fasnach Caernarfon, Siambr Fasnach Pwllheli a Siambr Fasnach Porthmadog yn fudiadau ar gyfer masnachwyr yn gyffredinol, tra mae Consortiwm Busnes Llanberis a Chymdeithas Dwristiaeth Beddgelert yn fudiadau penodol i fanteisio ar y diwydiant twristiaeth. Gellir dadlau fod y siambrau masnach ar yr wyneb ychydig yn llai effeithiol na chymdeithasau Llanberis a Beddgelert, gan nad oes canran uchel o'r busnesau a holwyd yn aelodau ohonynt. Mae'r cymdeithasau yn Llanberis a Beddgelert hefyd yn iau, ac yn llawn brwdfrydedd, ac yn fwy effeithiol yn cael pawb at ei gilydd i gydweithio.

Gwelir y sefyllfa yn Llanberis fel model i'r ffordd y gall cydweithio fod o fudd i fusnesau gyda Consortiwm Busnes Ardal Llanberis yn cydweithio law yn llaw â Phartneriaeth Llanberis. Mae Partneriaeth Llanberis yn gynllun gafodd ei eni wedi i 'Brosiect Llanberis' ddod i ben (Cynllun a ariannwyd gan arian ERDF ac a redodd o 1999 i 2002). Mae Partneriaeth Llanberis yn gynllun sydd yn cael ei ariannu yn bennaf gan y WDA, gyda pheth arian preifat yn ei gynnal hefyd, yn ogystal â grantiau ar gyfer prosiectau penodol gan wahanol gyrrff. Enillodd Partneriaeth Llanberis Wobr 'Twristiaeth yn y Gymuned' yng ngwobrau Bwrdd Croeso Cymru yn 2003.

Prif feysydd gwaith y Bartneriaeth ydi

- ❑ Gwella'r isadeiledd – llwybrau, tirwedd, arwyddion ayyb
- ❑ Cyd-lynu mentrau marchnata
- ❑ Cyd-lynu cyhoeddusrwydd
- ❑ Datblygu Digwyddiadau
- ❑ Cynorthwyo grwpiau lleol gyda cheisiadau am grantiau, e.e. meysydd chwarae ac ati
- ❑ Rhoi cymorth ar unrhyw fater yn ymwneud â thwristiaeth

Mae'r Bartneriaeth a'r Consortiwm hefyd yn gyfrifol am sefydlu a rhedeg gwefan www.llanberis.org.

Gwelir fod gwefannau yn bodoli ar gyfer yr holl ardaloedd yn yr astudiaeth ar wahân i Gaernarfon, a bod y gwefannau yn hynod o effeithiol mewn cynorthwyo busnesau i gael busnes. Roedd un gwesty yn Llanberis yn derbyn **50%** o'u busnes trwy 'llanberis.org', ac un gwesty ym Mhorthmadog yn derbyn **80%** o'u holl westeion trwy 'porthmadog.com'. Mae'n deg dweud fod gan y gwefannau yma fantais dros nifer o ardaloedd eraill, yn cynnwys Dyffryn Nantlle, gan fod 'brand' Porthmadog a Llanberis yn gryf iawn, er nad oes dim yn dweud na all Dyffryn Nantlle ddatblygu'r un enw da.

Yn Nyffryn Nantlle, gwelir fod cydweithredu'n dal yn gysyniad ifanc iawn, 'does yr un gymdeithas ffurfiol yn bodoli er mwyn cynnig fforwm i fusnesau. Roedd cydweithio mwy anffurfiol yn fwy cyffredin yn y Dyffryn, gyda **52%** o'r darparwyr twristiaeth yn cydweithio trwy rannu cwsmeriaid pan yn llawn, rhannu stoc a rhannu adnoddau¹. Roedd **40%** o'r busnesau cynhenid yn dweud fod cydweithio'n dda yn y Dyffryn, a **40%** yn dweud fod ychydig o gydweithio yn bodoli².

Roedd **78%** o'r darparwyr yn dymuno gweld mwy o gydweithio³ a **70%** o'r busnesau cynhenid⁴.

¹ Atodiad **8.13**

² Atodiad **10.8**

³ Atodiad **8.14**

⁴ Atodiad **10.9**

4.8 MARCHNATA

Gwelwyd fod darparwyr busnesau Dyffryn Nantlle yn gredwyr cryf mewn marchnata, gyda dim ond **4%** o'r busnesau yn cyfaddef i beidio marchnata o gwbl¹, o'i gymharu â **24%** yn yr ardaloedd eraill². Efallai bod y ffigurau yma yn dangos nad oes gan nifer o fusnesau mewn ardaloedd eraill yr angen i farchnata eu busnes, neu efallai bod busnesau Dyffryn Nantlle yn gweld y potensial mewn hysbysebu.

Mae gan **69%** o ddarparwyr y Dyffryn safleoedd gwê¹, sydd yn cymharu â **48%** mewn ardaloedd eraill². Mae **30%** yn hysbysebu yn y wasg, sydd yn cymharu â **12%** yn yr ardaloedd eraill, tra mae **22%** yn cynhyrchu pamffledi o gymharu â **4%** mewn ardaloedd eraill. Mae'r ddibyniaeth yma ar farchnata fel cwmnïau ar wahân, o bosib, yn adlewyrchu'r ffaith nad oes strategaeth farchnata twristiaeth sbesiffig i Ddyffryn Nantlle, yn sicr mae safleoedd gwê effeithiol ardaloedd eraill wedi lleihau angen cwmnïau yn yr ardaloedd yma i gael safleoedd gwe eu hunain.

Mae darparwyr Dyffryn Nantlle yn defnyddio mwy ar bob dull marchnata fel canran, na chyfartaledd yr ardaloedd eraill.

Gofynnwyd i'r cwmnïau yn y Dyffryn fydden nhw'n croesawu strategaeth farchnata i Ddyffryn Nantlle - strategaeth fyddai'n marchnata'r Dyffryn ar wahân, ac yn codi ymwybyddiaeth ymwelwyr o fodolaeth a photensial y Dyffryn fel cyrchfan i dwristiaeth.

Dyweddodd 96% o'r darparwyr y byddent yn croesawu strategaeth o'r fath, a 4% ddim yn poeni, tra roedd 90% o'r busnesau cynhenid yn croesawu strategaeth, tra roedd 10% ddim yn siwr³. Mae'n debyg na fyddai rhywun yn gwrthod strategaeth fyddai yn dod â budd i fusnesau yn y Dyffryn, beth bynnag.

Syniadau a gynigwyd a allai ffurfio rhan o'r strategaeth oedd –

- ❑ Safle gwê ar gyfer twristiaeth
- ❑ Llundio pamffledi/llyfrynau i farchnata'r Dyffryn
- ❑ Marchnata diwylliant a hanes y Dyffryn
- ❑ Defnyddio'r chwareli fel canolbwynt (chwarel Dorothea yw'r un amlwg)⁴.

¹ Atodiad **8.15**

² Atodiad **9.75**

³ Atodiad **8.16** a **10.10**

⁴ Atodiad **8.17**

4.9 RHAGOLYGMON BUSNESAU

O'i gymharu â'r ardaloedd eraill yn yr adroddiad gwelwyd fod rhagolygon busnesau'r Dyffryn ar i fyny, yn enwedig yn y sector dwristiaeth - roedd 73% o'r darparwyr yn dweud bod eu rhagolygon i'r dyfodol yn dda¹, tra roedd 40% o'r busnesau cynhenid yn dweud yr un peth². Mae hyn yn cymharu â 52% o'r busnesau mewn ardaloedd eraill yn gweld rhagolygon yn dda³.

Dim ond 4% o ddarparwyr twristiaeth y Dyffryn oedd yn gweld y sefyllfa yn gwaethgu iddynt¹, eto 4% oedd y ffigwr am yr ardaloedd eraill², sydd yn adlewyrchu'r optimistiaeth yn lleol am y diwydiant twristiaeth.

Serch yr optimistiaeth yma yn y sector twristiaeth, mae 50% o fusnesau cynhenid y Dyffryn yn gweld busnes yn dirywio dros y blynyddoedd nesaf, sydd yn dilyn y patrwm yn rhanbarthol - roedd 60% o siopau yn gweld dirywiad, a 40% o dafarndai yn gweld rhagolygon yn wael dros y blynyddoedd nesaf⁴.

Mae'r ffigurau yma mewn nifer o ardaloedd yn deillio o bresenoldeb archfarchnadoedd mawr yn ymddangos yn y farchnad manwerthu, gyda Tesco newydd agor ym Mhorthmadog, a chynlluniau gan ASDA i agor siop ym Mhwillheli, eto does dim sôn am agor siopau fel hyn yn Nyffryn Nantlle. Yn sicr byddai'n sbardun i'r diwydiant twristiaeth yn y Dyffryn yn fodd i godi gobeithion, ac yn y pen draw, achub nifer o'r busnesau yma.

Gwelir fod nifer o sectorau penodol yn y farchnad yn dioddef anawsterau, gyda'r holl Swyddfeydd Post a holwyd yn gweld y dyfodol yn ansicr oherwydd newid strategaeth yn eu marchnad, a'r broses o agor y gwasanaeth Post i ddylanwadau'r farchnad agored. Roedd tafarndai i'w gweld yn gyffredinol yn dioddef hefyd, roedd nifer yn datgan fod y gwahaniaeth mawr, bellach, mewn pris rhwng yfed adref ac yfed mewn tafarn yn effeithio ar fusnes.

Yn sicr ddigon, gwestai oedd y busnesau oedd yn gweld eu rhagolygon orau, gyda **100%** yn dweud bod eu rhagolygon yn dda⁴.

Y patrwm sydd i'w weld o'r holl ffigurau hyn yw mai twristiaeth yn amlwg ydi'r sector sydd fwyaf sefydlog ar hyn o bryd, os nad yn dangos fwyaf o gynnydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith y gall ymwelwyr gyfrannu tuag at economi ardaloedd gwledig Gwynedd. Efallai bod cwsmeriaid lleol yn cyfrannu at gadw'r busnesau i fynd o ddydd i ddydd, ond gall y twristiaid gyfrannu'r elw ychwanegol sydd yn cadw'r cwmnïau i fynd yn y tymor hir, ac yn aml alluogi twf fydd o fudd i'r economi yn lleol.

Mae nifer wedi datgan pryder fod y swyddi ychwanegol sydd yn cael eu creu yn sgil y diwydiant ymwelwyr yn swyddi tymhorol, gwelir fod y patrwm yn aml yn wahanol i hyn, gyda nifer o gwmnïau yn fodlon cadw eu staff trwy'r gaeaf, er yn cynnig llai o oriau. gan wybod y byddant yn aros yn driw i'r cwmni pan ddaw amseroedd prysurach yn yr haf. Mae hyn yn amlwg iawn mewn ardaloedd lle mae cwmnïau yn cael trafferth canfod staff yn ystod y tymor ymwelwyr fel Llanberis, Beddgelert a Phorthmadog. Gwelir fod y tymor ymwelwyr mewn ardaloedd fel Llanberis wedi ei ymestyn yn hirach yn y flwyddyn gyda digwyddiadau penodol wedi eu trefnu, a hefyd gan fod mwy o bobol yn dod i'r ardal am wyliau byr yn y gaeaf. Mae'r patrwm yma yn lleddfu'r boen i'r cwmnïau o gyflogi eu staff yn ystod y gaeaf.

¹ Atodiad **8.19**
² Atodiad **10.12**
³ Atodiad **9.74**
⁴ Atodiad **9.76**

Rhan 5 - Busnesau a Syniadau Twristiaeth sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn ardal Dyffryn Nantlle.

5.1 Canolfan Cymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni

Sefydlwyd y gymdeithas yn 1908 i hybu pysgota ac i warchod yr afonydd yn ardal Seiont, Gwyrfai a Llyfni. Bellach maent yn berchen ar hawliau pysgota ar tua 40 milltir o afonydd a 6 llyn. Credir bod pysgota yn cyfrannu tri chwarter miliwn i'r economi yn ardal y gymdeithas. Pobl leol sy'n cyfrannu fwyaf at y cyfanswm yma, amcangyfrifir eu bod yn gwario tua £1500 yr un y flwyddyn ar bysgota. Yna amcangyfrifir bod ymwelwyr pysgota i gyd yn gwario tua £1000 yr un ar eu gwyliau.

Menter newydd gan y Gymdeithas yw troi hen felin ar lan yr afon Llyfni ger Pontllyfni yn uned wyliau hunangynhaliol. Bydd yna le i hyd at 6 oedolyn a phlant a bydd wedi ei addurno ar thema pysgota. Er mai ar gyfer pysgotwyr mae'n cael ei marchnata yn bennaf, bydd ar gael i unrhyw un ei logi am wyliau, hefyd bydd ar gael allan o dymor i drigolion lleol ei ddefnyddio fel Canolfan Gymunedol.

Cafodd y Gymdeithas grantiau ar gyfer y cynllun gan Gyngor Gwynedd (Cwlwm Gwledig), Amcan 1, Cronfa Gynladwyedd yr Ardoll Agregau a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Cost y cynllun yw £346,000. Bwriedir marchnata'r Felin ar wefan y Gymdeithas a defnyddio asiantaeth wyliau lleol.

Mae'r Gymdeithas wedi sefydlu cynllun arall hefyd sef rhentu cychod ar y llynnoedd. Mae hyn eisioes wedi profi yn boblogaidd iawn gyda'r holl gychod sydd ganddynt wedi eu llogi am y tymor nesaf yn barod.

Mae'r ddau gynllun yma yn ogystal â'r nifer o drwyddedau pysgota sy'n cael eu gwerthu yn profi pwysigrwydd pysgota i ardal wledig a chredwn drwy ddulliau marchnata y gellid gwerthu Dyffryn Nantlle fel ardal enwog ar gyfer pysgota.

5.2 Saethyddiaeth - Mrs F.L. Jones, Pen-y-ffridd, Nebo

Mae Mrs Jones wedi bod yn aelod o'r 'Grand National Archery Society' ers tua 25 mlynedd a mwy, ac mae wedi rhedeg sawl busnes Saethyddiaeth yn y gorffennol. Rhedodd yr un diwethaf rai blynyddoedd yn ôl yn Hendre Hall, Talybont ger Bangor. Roedd hwn yn fusnes dan do ac yn boblogaidd iawn gyda thwristiaid a phobl leol. Bu raid iddi ddod â'r busnes i ben oherwydd newid defnydd i'r adeilad gan y perchnogion. Mae'r grefft yn dod yn fwy poblogaidd gyda rhestr aros i ymuno â chlwb Saethyddiaeth Môn.

Mae Mrs Jones ar hyn o bryd yn ceisio cael caniatâd perchennog tir ger ei chartref yn Nebo ar gyfer dechrau busnes Saethyddiaeth. Mae'n cysidro dau syniad sef:-

- 1) Gosod targedi o siapiau anifeiliaid o gwmpas y caeau fel bod y saethwr yn symud o un targed i'r nesaf (fel golff).
- 2) Gosod targedi mwy traddodiadol yn y pellter a bod saethwyr yn cystadlu am y sgôr gorau.

Mae'r offer eisioes ganddi a hefyd mae ganddi'r yswiriant priodol yn ei le. Byddai yn marchnata'r busnes drwy daflenni, cylchgronau saethyddiaeth, gwefan ei hun a gwefan y GNAS. Byddai yn hoffi gallu cyflogi pobl leol ond rhaid fyddai gweld sut mae'r busnes yn datblygu.

Mae Mrs Jones hefyd yn fodlon ystyried rhedeg y busnes fel rhan o fusnes mwy sy'n cynnig amrywiol o weithgareddau awyr agored.

5.3 Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, Cae'r Gors, Rhosgadfan

Bwriad y cynllun yma yw sefydlu Canolfan Ddehongli Amlgyfrwng yng nghartref yr awdures enwog Kate Roberts ym mhentref Rhosgadfan. Mae'r ganolfan yma yn cynnwys tair rhan sef:-

- 1) Adnewyddu'r bwthyn gwreiddiol fel amgueddfa.
- 2) Ystafell Ddehongli - yma ceir yr offer dechnoleg ddiweddaraf fydd yn dehongli bywyd yng nghyfnod Kate Roberts, ei gwaith a hanes yr ardal.
- 3) Ystafell Seminar – Ystafell amlbwrpas i gynnal amrywiaeth o weithgareddau addysgol a chymunedol.

Mae'r Ganolfan wedi derbyn arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Gynladwyedd yr Ardoll Agregau, Cronfa Wledig Gwynedd, Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) a Tir a Môr. Roedd cyfanswm y grantiau tua £900,000. Mae'r gwaith wedi dechrau a gobeithir cwblhau erbyn Hydref 2006 ac yna ei agor yn swyddogol ym Mhasg 2007.

Mae'r ganolfan yn cael ei anelu at amrywiaeth o bobl, o drigolion lleol sydd â diddordeb yng ngwaith Kate Roberts i dwristiaid sydd â diddordeb yn hanes a daearyddiaeth yr ardal. Bydd teithiau cerdded tywysedig yn cael eu trefnu, yn ogystal â seminarau a chyrsgiau ar gyfer ysgolion a myfyrwyr. Mae'r pwyllgor hefyd yn awyddus i gydweithio ar brosiectau fyddai yn dilyn hanes llenorion eraill sydd yn byw yn yr ardal. Efallai gellid trefnu teithiau o gwmpas cartrefi ac ardaloedd oedd o ddiddordeb i'r llenorion. Credwn fod hyn yn syniad gwych ac fel y trafodwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad gellid cyfuno'r rhain gyda sefydlu Dyffryn Nantlle yn ardal y Mabinogi.

5.4 Canolfan Hanes Uwchgwyrfai

Yn Hydref 2002 llwyddodd pwyllgor lleol yn ardal Clynnog Fawr i ohirio gwerthiant ysgoldy Capel Ebeneser ynghyd a'r tŷ capel er mwyn sefydlu canolfan hanes ar y safle. Amcan y cynllun yn ôl datganiad i'r wasg 'yw addasu'r ddau adeilad cofrestredig a sefydlu prosiect a fydd yn cynnal balchder yn ein hiaith a'n treftadaeth a gwarchod hyn ar gyfer cenedlaethau a ddaw'. Bwriedir trefnu gweithgareddau ar gyfer plant ysgol yn ystod y gwyliau yn ymwneud a'u treftadaeth. Yn ogystal maent am greu archif ddigidol o'r ardal a chreu arddangosfeydd o hanes lleol. Gobeithir sefydlu Canolfan Achau Genedlaethol a chynhyrchu cylchgrawn hanes llafar i'r deillion. Maent am drefnu ysgolion undydd, darlithoedd a theithiau cerdded. Yr ardal

maent yn canolbwyntio arni yw ardal Uwchgwyrfai a'r dalgylch, sef o Nefyn i Bontnewydd gan gynnwys Dyffryn Nantlle.

Prosiect cyffrous arall ar y safle yw sefydlu Gardd Hanesyddol Gymunedol yn arbenigo ar berlysiâu a blodau bwthyn. Cynllunnir yr ardd gan Dr Anne Elisabeth Williams sydd yn arbenigwr ym maes meddyginiaethau gwerin.

Gobeithir agor y ganolfan yng Ngwanwyn 2006, a bydd ar agor yn ddyddiol o'r Gwanwyn hyd at Galan Gaeaf ac ar ddydd Sadwrn drwy'r flwyddyn

5.5 Bwrlwm Eryri

Mae Bwrlwm Eryri wedi cael ei sefydlu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaethau eraill i gofnodi, casglu, gwarchod a hyrwyddo ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri. Mae hyn yn cynnwys llên, celfyddyd, cerddoriaeth, ymadroddion, enwau lleoedd, hanes gwerin a chwedlau lleol. Y syniad yw creu cyfeiriadur llenyddol ar y wê, ac felly rhoi cyfle drwy'r dechnoleg gyfoes i bobl ymchwilio i'r deunydd a chyfrannu deunydd eu hunain. Bydd cydweithio agos gyda chymunedau a chymdeithasau lleol. Bydd y fenter yma yn bwysig iawn i Ddyffryn Nantlle gan fod yr ardal yn enwog am ei beirdd a llenorion. Bydd y casgliad yn rhoi cyfle i bobl ddysgu am waith y llenorion lleol a gall y wybodaeth gael ei ddefnyddio yn lleol i greu teithiau cerdded o amgylch bröydd yr awduron, beirdd a llenorion lleol.

5.6 Goriad Gwyrdd Eryri

Cafodd Menter Goriad Gwyrdd Eryri ei sefydlu er mwyn edrych ar ffyrdd i ddiogelu dyfodol cymunedau yn ardal fynyddig a phoblogaidd Gogledd Cymru. Roedd yn ffaith ers blynyddoedd bod mwy a mwy o ymwelwyr yn dod i'r rhan yma o Ogledd Cymru i fwynhau'r golygfeydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac fod hyn yn dod â phroblemau yn ei sgil. Y brif broblem oedd y system drafnidiaeth a'r cyfleusterau parcio, yn aml gwelwyd y meysydd parcio yn orlawn a rhesi hir o geir yn gwthio i bob twll a chornel. Sefydlwyd partneriaeth o'r prif gyrff cyhoeddus yn cynnwys y Cynghorau Sir, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Cefn Gwlad a'r Awdurdod Datblygu. Cynhaliodd y partneriaid yma ymgynghoriad yn 2002 ac allan o hwn cynhyrchwyd strategaeth am y blynyddoedd nesaf. Isod gwelir rhestr o'r Nodau ac Amcanion y Fenter fel mae'n cael ei weld yn eu dogfen 'Strategaeth a Chynllun Gwaith'.

Nodau ac Amcanion y Fenter yw i :

- Ddatblygu a rheoli gweithgareddau ymwelwyr a hamdden tu mewn i Ogledd Eryri.
- Gwella profiad ymwelwyr.
- Codi mewnbwn twristiaeth i'r economi lleol.

- Cyflenwi cyfleoedd cyflogaeth a datblygiadau economaidd tymor hir.
- Sefydlu system drafnidiaeth integredig effeithlon ac effeithiol.
- Sicrhau mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau hanfodol trwy ystod ehangach a safon well o gyfleoedd teithio.
- Lleihau dibynadwyedd ymwelwyr ar gerbyd modur preifat fel ffurf o deithio i ac o gwmpas yr ardal.
- Diogelu a gwella amgylchedd unigryw'r ardal.
- Gwella cyfleusterau parcio.
- Datblygu rheolaeth traffig effeithiol.
- Gwella ac ymestyn y rhwydwaith seiclo a llwybrau troed.
- Marchnata effeithiol o'r gwasanaeth bws Sherpa.

Un term sydd yn amlwg iawn yn yr adroddiad yw 'Canolfannau Porth', dyma'r prif ardaloedd sydd yn rhoi mynediad i ymwelwyr at y Wyddfa a'i chriw. Dyma felly'r canolfannau maent am ganolbwyntio'r adnoddau i wella'r parcio a'r gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Un ardal sydd heb gael ei chysidro yn amlwg yn yr adroddiad a'r argymhellion yw Dyffryn Nantlle. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw nad yw'r Dyffryn yn enwog am ei diwydiant twristiaeth ac felly nad oes problemau gyda'r lefel o drafnidiaeth ychwanegol yn sgil twristiaeth. Ond mae galw wedi bod i gael cynnwys y Dyffryn yn y cynllun gan ei bod yn adwy i'r Wyddfa.

Mae un prosiect wedi ei gyflwyno yma yn ddiweddar sydd yn cael ei ariannu gan Menter Goriad Gwyrdd Eryri sef gwasanaeth Cludiant Ymateb i Alw ar gyfer cerddwyr Crib Nantlle. Oherwydd prinder gwasanaeth bws i'r rheini sy'n awyddus i gerdded crib Nantlle penderfynwyd sefydlu fel cynllun peilot gwasanaeth taci arbennig. Gwasanaeth ydyw i unrhyw un sydd wedi cerdded y Grib i gael cludiant yn ôl at eu car am bris sy'n cyfateb i bris tocyn bws. Bydd yn cludo teithwyr yn ôl o Ryd Ddu i Benygroes, Talysarn neu Nantlle neu yn ol i Ryd Ddu. Mae'r nawdd ar gyfer y cynllun yn dod i ben adeg y Pasg 2006, ond os bydd ffigyrau yn profi defnydd o'r gwasanaeth, yna gallai'r cynllun gael ei gadw'n mlaen trwy'r haf 2006. Yn ôl perchennog y cwmni taci Huw Edwards mae'r gwasanaeth yn boblogaidd iawn yn enwedig ar y penwythnosau, mae nifer o grwpiau ac unigolion wedi archebu lle yn barod am y mis nesaf. Mae'n cael ei ddefnyddio gan bobl leol yn ogystal â chan dwristiaid. Credir yn gryf yn yr ardal y dylid parhau a'r gwasanaeth yma ac efallai ar y penwythnosau ei ehangu i nifer o deithiau'r dydd.

5.7 Cynlluniau Cerdded yn ardal Dyffryn Nantlle.

Er mai mynyddoedd Eryri yw'r prif gyrchfan i gerddwyr mae nifer o brosiectau i ddenu cerddwyr yn Nyffryn Nantlle.

Mae'r cyntaf yn canolbwyntio a'r ardal yr arfordir ac mae'n rhan o'r cynllun 'Taith Ymylon Cymru'. Mae'r cynllun yma yn cynnig gwyliau cerdded gyda phegyn llawn o lety, mapiau a throsoglwyddo bagiau o un lle i'r llall. Mae'n cynnig dewis o deithiau ar hyd arfordir Sir Gaernarfon i Ben Llŷn, gyda hyd y daith yn ddibynnol ar amser a gallu'r cerddwr. Mae'r daith gyntaf yn cychwyn yn ardal Dyffryn Nantlle sef yng Nghlynnog Fawr ac yn mynd tuag at Lanaelhaearn sydd yn daith o tua 8 milltir. Yng Nghlynnog mae gwesty Bryn Eisteddfod yn rhan o'r cynllun, gellir aros yno a threfnu cludiant yn ôl bob nos, neu mae'n bosib cael cludo bagiau i'r lleoliad nesaf. Mae'r math hwn o wyliau yn boblogaidd iawn yn yr Iwerddon ac ar gyfandir Ewrop a chredaf y gellid, drwy gydweithio gyda'r asiantaethau priodol, ehangu'r math hwn o wasanaeth i ardaloedd fel Dyffryn Nantlle. Byddai yn bosib cael y darparwyr llety eraill i ymuno a chynnig teithiau i fyny'r Dyffryn ac ymuno wedyn yn rhwydwaith mynyddoedd Eryri.

Yr ail gynllun yw 'Traed Trysor Ifanc' sydd yn rhan o'r prosiect 'Cerdded Llwybr Iechyd'. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor, Y Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ac Antur Nantlle. Mae'n cael ei ariannu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, British Heart Foundation a 'r Gronfa Loteri Fawr. Syniad y cynllun yw hybu cerdded yn rheolaidd i wella iechyd a lles pobl. Mae'r daflen sy'n cyd-fynd a'r cynllun yn dangos chwe thaith yn amrywio o ran hyd ac amser. Mae'r teithiau wedi eu hanelu at deuluoedd a'r rhai nad ydynt yn gerddwyr profiadol. Agwedd arall y prosiect yw'r cynllun 'hyfforddi arweinyddion teithiau' sy'n rhoi hyfforddiant i wirfoddolwyr lleol sut i arwain teithiau cerdded yn eu hardal. Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cael ei fonitro i weld faint sy'n barod yn cerdded y teithiau / llwybrau, a faint sy'n cymryd rhan mewn teithiau sy'n cael eu harwain.

Y trydydd cynllun arbennig yn Nyffryn Nantlle yw Llwybrau Llechi. Mae'r rhain yn gyfres o lwybrau i ddangos i gerddwyr olion y diwydiant llechi. Yr ardaloedd a oedd yn rhan o'r cynllun oedd Dyffryn Nantlle, Llanberis, Bethesda, Blaenau Ffestiniog a Chorris. Maent yn defnyddio'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus sy'n bodoli yn barod ond eu bod wedi cael arwyddion arbennig. Dechreuwyd y cynllun gan Gyngor Gwynedd tua 5 mlynedd yn ôl a chynlluniwyd taflenni a gwefan i gyd-fynd. Mae'n debyg iddynt fod yn fwy poblogaidd yn yr ardaloedd sydd yn denu cerddwyr fel Llanberis, ond dyma adnodd y gallai Dyffryn Nantlle ail edrych arno. Rhaid edrych eto ar safon rhai o'r llwybrau a hefyd ceisio, drwy hysbysfyrdau, roi mwy o wybodaeth am yr hyn a welir ar y teithiau.

Lleoliad arall poblogaidd i gerddwyr yn yr ardal yw Llwybrau Parc Glynllifon. Mae'r rhain yn gyfres o lwybrau o amgylch Stad Glynllifon. Maent yn cael eu hyrwyddo fel rhan o atyniadau Parc Glynllifon, Cyngor Gwynedd yw perchennog y safle ac ynghyd a'r teithiau cerdded mae siop ac unedau crefft, caffî ac arddangosfeydd. Mae'r Parc yn adnodd gwych ar garreg y drws ond credwn fod lle i wella'r mynediad i Barc Glynllifon oddi ar Lôn Eifion ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Byddai hyn yn galluogi cyfuno teithiau cerdded Parc Glynllifon gyda teithiau o amgylch Dyffryn Nantlle.

Mae un cynllun arall yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd hefyd yn ardal Rhostryfan. Mae Cyngor Cymuned Llanwnda wrthi yn addasu hen drac trên Lein Bryngwyn yn llwybr beicio a cherdded. Maent yn derbyn nawdd gan Gyngor Gwynedd i wella cyflwr y llwybr ac i osod hysbysfyrddau am hanes yr ardal. Maent hefyd am gynhyrchu taflenni marchnata. Y gobaith yw y gallai cydweithio ddigwydd rhwng rheilffordd yr ucheldir er mwyn i feicwyr cael cyfuniad o daith beicio a thaith ar y trê. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn gobeithio bydd ehangu'r rhwydwaith llwybrau yn gwella'r cysylltiad rhwng y pentrefi ymylol a Dyffryn Nantlle.

Mae Antur Nantlle ar hyn o bryd yn ogystal yn ceisio ffurfio grŵp i gydlynu'r holl gynlluniau cerdded yn yr ardal er mwyn eu marchnata fel un.

5.8 Canolfan Talysarn a Chaffi Cymunedol

Sefydlwyd Canolfan newydd Talysarn gan Bwyllgor y Ganolfan. Roeddynt yn griw gwirfoddol a oedd yn awyddus i gael cyfleusterau gwell i'r ganolfan yn Nhalsarn. Roedd y ffaith fod Talysarn a Nantlle oddi fewn i ardal 'Cymunedau'n Gyntaf' Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ffordd o ddenu arian cyhoeddus ar gyfer y prosiect. Rhoddwyd cais i mewn ar ran Pwyllgor y Ganolfan gan Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Talysarn a Nantlle i 'Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedau' a 'Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' y Cynulliad. Roedd y math yma o brosiect yn gweddu i'r dim a nod ac amcanion y rhaglen sef :-

- Cael pobl leol i gymryd rhan i wella'u hardaloedd a'u dyfodol.
- Dod ag arian a nawdd gan amrywiaeth o ffynonellau er mwyn gwneud yr hyn sydd ei angen.
- Sicrhau bod gwelliannau yn para.
- Annog pobl i fod yn hyblyg, i fentro ac i ddelio â phroblemau mewn ffyrdd newydd.
- Cael pawb i gydweithio i bennu'r problemau a gwneud rhywbeth yn eu cylch.

*Themâu a Strategaethau
Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Mae'r gwaith ar y Ganolfan yn cynnwys codi neuadd newydd ac ynddi'r cyfleusterau diweddaraf. Bydd yno neuadd gyffredinol, stafelloedd cyfarfod a chegin fodern. Mae'r grŵp cymunedol sydd yn gofalu am y neuadd yn bwriadu defnyddio'r ganolfan newydd ar gyfer llu o weithgareddau lleol.

Un o'r syniadau dan sylw yw sefydlu caffi cymunedol a fydd yn adnodd i bobl leol ac ar gyfer twristiaid. Y bwriad yw agor ar benwythnosau i ddechrau ar gyfer pobl ifanc lleol yn ogystal â cherddwyr a deifwyr i'r ardal. Maent hefyd yn trafod y posibilrwydd o gynnig pecynnau bwyd i grwpiau sydd yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn yr ardal. Gellir ehangu'r ddarpariaeth os bydd galw yn y dyfodol. Mae'r grŵp eisioes wedi defnyddio'r cyfleusterau i gynnig lluniaeth ar gyfer achlysuron yn y pentref. Byddai modd ehangu ar y gwasanaeth yma drwy drefnu gweithgareddau arbennig yn y ganolfan. Gall y gweithgareddau yma amrywio o arddangosfeydd, cyngherddau a chynadleddau. Mae gan y grŵp arian ar gyfer

hysbysebu'r cynllun a byddant yn cysylltu'n fuan a phapurau lleol a rhoi hysbyseb ar wefan y Dyffryn.

5.9 Canolfan Llys Llywelyn

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei lleoli yn y Barics yn Nantlle. Mae'r uned yn rhan o stad ddiwydiannol fechan sydd yn eiddo i Antur Nantlle. Canolfan gymunedol ar gyfer pentref Nantlle yw Llys Llywelyn ac sydd yn cael ei rhedeg gan grŵp o wirfoddolwyr. Mae'r uned wedi cael ei haddasu yn arbennig gyda dwy ystafell braf a chegin addas. Trefnir llu o weithgareddau yno yn rheolaidd gydag amserlen lawn i ddenu pobl o bob oed. Cynhelir cyrsiau, clybiau ar gyfer plant a phobl ifanc, gweithdai crefft a chyfarfodydd cymunedol. Bydd yn bosib hefyd i gydweithio â'r busnesau eraill yn y Barics i drefnu gweithgareddau arbennig i ddenu ymwelwyr yn ogystal â phobl leol.

5.10 Canolfan Sgiliau Cadwraeth Peirianeg

Mae cwmni Tirwedd Cyf yn elusen ac yn gwmni wedi ei gyfyngu drwy warant. Ei nod yw 'hyrwyddo ymwybyddiaeth etifeddol, cadwraeth a chefnogi datblygiadau economaidd sy'n parchu'r adnoddau naturiol a hanesyddol sydd gennym'. Un prosiect sydd ar y gweill yw sefydlu Canolfan Sgiliau Cadwraeth Peirianeg. Maent yn cydweithio ar y prosiect yma gyda 3 partner sef Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor a chwmni McAlpine. Maent wedi comisiynu astudiaeth dichonoldeb ac yn y broses nawr o lunio cynllun busnes. Mae'r grŵp wedi cytuno prydles o 30 mlynedd ar y safle yn chwarel Pen-yr-Orsedd ac amcangyfrifir y bydd cost y cynllun tua £4 miliwn. Prif nôd y cynllun yw atgyweirio'r hen adeiladau ac yna eu defnyddio i gynnig hyfforddiant arbenigol ym maes peirianeg. Y bwriad yw creu Ysgol Beirianyddol (Engineering Skill Centre).

Datblygiad diweddar i'r cynllun yw bod rhaglen deledu 'Restoration' gan y BBC wedi dangos diddordeb yn y prosiect. Bydd hyn yn golygu y caiff y cynllun sylw cenedlaethol fydd yn help i gystadlu am arian ychwanegol ar gyfer y gwaith adnewyddu. Mae diddordeb mawr ganddynt yn y ffaith fod yr adeiladau am gael eu hadnewyddu yn ôl i'w ffurf gwreiddiol.

Er nad yw hwn yn ei hanfod yn gynllun twristiaeth credir y byddai yn denu pobl sydd â diddordeb ym maes hanes diwydiannol. Byddai'r rhaglen deledu hefyd yn ffordd o farchnata'r gwaith a'r ardal yn gyffredinol. Mae bwriad gan y grŵp i gynnig rhai o'r adeiladau gorffenedig fel safle busnes ac eto byddai hyn yn dod â phobl mewn i'r ardal.

Mae grŵp Tirwedd yn ogystal wedi cael caniatâd i ddechrau gwaith adnewyddu ar yr hen injan bwmpio yn chwarel Dorothea. Mae'r injan yma yn un o'r ychydig rai sydd ar ôl drwy'r byd. Bwriedir ei hatgyweirio ac agor y safle i'r cyhoedd.

5.11 Prosiect Gwin a Chynnyrch Lleol Pant Du

Mae Pant Du yn fferm ar gyrion Penygroes sydd yn eiddo i Richard Wyn ac Iola Huws a'r teulu. Prynwyd y fferm ganddynt rhai blynyddoedd yn ôl ac mae nifer o gynlluniau cyffrous ar gyfer y safle.

Un o'r prif gynlluniau yw tyfu grawnwin ar y fferm er mwyn cynhyrchu gwin eu hunain sef gwin Pant Du. Maent wedi cael cyngor arbenigwr ym maes gwin sydd wedi profi bod y tir a'r tywydd yn eithaf ffafriol. Maent hefyd ar hyn o bryd yn cael cyngor gan Farming Connect ac ADAS ar gyfer creu cynllun busnes. Y bwriad yw tyfu 3 math o rawnwin gwyn a tri math o rawnwin coch ac yna ar ôl eu cynaeafu eu symud i windy (winery) a fyddai yn ei brosesu a'i botelu. Dylai'r gwin cyntaf o Bant Du fod yn barod mewn tua 5 mlynedd. Gobeithir gallu cynhyrchu gwin gwyn, coch, rose a phefriog (sparkling). Amcangyfrifir gan y perchennog y gelli'r cynhyrchu 11 mil o boteli'r flwyddyn ar ol 5 mlynedd wedi i'r winllan sefydlu. Gobeithir wedyn ei farchnata yn lleol a thu hwnt ac agor canolfan profi gwin ym Mhant Du.

Mae'n fwriad gan y teulu hefyd i gynhyrchu nifer o ddeunyddiau eraill ar y fferm. Maent eisioes yn cynhyrchu mêl ac maent yn awyddus i gynhyrchu wyau organig, llysiau a ffrwythau. Gobeithir defnyddio coed afalau i gynhyrchu seidr cartref ac eirin tagu ar gyfer gwin eirin tagu (sloe gin). Mae cynlluniau hefyd i droi'r hen ffermdy yn uned wyliau a fyddai yn cynnig cynnyrch lleol. Mae bwriad hefyd i agor caffi / tŷ bwyta a fyddai yn defnyddio cynnyrch y fferm a chynnyrch lleol arall. Fel sydd eisioes wedi ei adrodd yn yr adroddiad mae nifer wedi mynegi bod angen tŷ bwyta lleol.


Mae'r holl syniadau uchod yn gyffrous iawn gyda nifer o agweddau yn perthyn iddo, fyddai'n rhoi Dyffryn Nantlle ar y map ac yn denu nifer o ymwelwyr i'r ardal.

Rhan 6 - Awgrymiadau i'r Dyfodol a Ffynonellau Arian

6.1 Prosiect 1 - Fforwm Busnesau Dyffryn Nantlle

Yn dilyn llwyddiant fforymau busnes mewn ardaloedd eraill teimlwn fod sefydlu rhyw fath o fforwm yn Nyffryn Nantlle ar gyfer busnesau yn hanfodol wrth ddatblygu'r Dyffryn yn economaidd. Gall y fforwm fod yn gymdeithas gyffredinol ar gyfer holl fusnesau'r Dyffryn, neu'n fforwm benodol ar gyfer y diwydiant twristiaeth. Yn ogystal â hyn gellid sefydlu is-fforymau ar gyfer elfennau gwahanol o fewn y diwydiant yn y Dyffryn. Byddai'r fforymau yma yn cyfarfod yn llai rheolaidd na'r prif fforymau, rhag cymryd gormod o amser yr aelodau.

Gall patrwm fel a ganlyn fod yn gynllun ar gyfer strwythur y fforymau ymhen amser. Teimlwn y byddai cael yr is-fforymau yn cynnig ffocws penodol i fusnesau gan fod twristiaeth yn ei hanfod yn faes eang iawn.



FFORWM BUSNES DYFFRYN NANTLLE

Byddai'r fforwm yma yn ganolbwynt i holl ffocws busnesau'r Dyffryn, ac yn cyflenwi'r dibenion canlynol. Ni fyddent o anghenraid yn ymwneud yn benodol â'r diwydiant ymwelwyr, ond yn sicr byddai ffyniant y busnesau o fudd i ddatblygiad y diwydiant ymwelwyr yn y Dyffryn.

- ❑ Rhannu gwybodaeth.
- ❑ Rhannu adnoddau.
- ❑ Hybu ymddiriedaeth rhwng cwmnïau.
- ❑ Fforwm i gwmnïau'r Dyffryn leisio pryderon a chwynion
- ❑ Cydweithio i geisio atebion i broblemau cyffredin.
- ❑ Rhoi cyfle i fusnesau gydweithio er mwyn datblygu digwyddiadau (e.e. siopa Nadolig hwyr; cystadleuaeth ffenestri siopa; addurno Nadolig ac ati).
- ❑ Gwadd arbenigwyr i gynnig gwybodaeth am elfennau penodol mewn byd busnes (e.e. ceisio am grantiau; marchnata; TAW; newidiadau i ddeddfau; yswiriant;

FFORWM BUSNESAU TWRISTIAETH DYFFRYN NANTLLE

Byddai'r fforwm yma yn cynnig ffocws mwy pendant i fusnesau yn y sector dwristiaeth, ac mewn ffordd yn fforwm gyda mwy o ffocws na'r fforwm busnesau. Bydd yn cynnig, gyda gobaith, y bendithion canlynol.

- ❑ Cynnig syniadau ar sut i wella'r ddarpariaeth yn gyffredinol i dwristiaeth yn y Dyffryn.
- ❑ Cydweithio ar gynlluniau marchnata'r Dyffryn ar y cyd i dwristiaeth.
- ❑ Canolbwyntio ar ddatrys problemau penodol sydd yn wynebu'r sector dwristiaeth.
- ❑ Manteisio ar arbenigedd pobol o'r tu allan ym maes twristiaeth (e.e. Bwrdd Croeso Cymru, Adran Dwristiaeth Cyngor Gwynedd, Adran Dwristiaeth a Hamdden Coleg Prifysgol Cymru, arbenigwyr o ardaloedd eraill – Partneriaeth Llanberis ac ati)
- ❑ Cyd-weithio i ddatblygu cysylltiadau ar safleoedd gwê ei gilydd.

FFORWM LLETY A CHROESO

Byddai'r grŵp yma yn trafod elfennau sydd yn benodol i'r sector yma fel:-

- ❑ Trafod rhannu cwsmeriaid – datblygu rhwydwaith i yrru gwesteion ymlaen os ydi sefydliad yn llawn.
- ❑ Rhannu gwybodaeth am oriau agor a thymhorau agor, yn enwedig tafarndai bwytai a gwestai ac ati.

FFORWM ATYNIADAU

- ❑ Sefydlu rhwydweithiau i rannu cwsmeriaid, cydweithio i ddenu cwmnïau bysus i ddod i'r atyniadau, gan gynnig gostyngiad pris wrth ddod i fwy nac un, efallai, neu gydlynu amserlenni ymweld mewn cydweithrediad â'r cwmnïau busnes.
- ❑ Cydweithio i gydlynu ymweliadau ac atyniadau tebyg; e.e. canolfannau treftadaeth o fewn y Dyffryn - gan gynnig pecynnau cynhwysfawr ar gyfer grwpiau ysgolion ac ati.

FFORWM SEFYDLIADAU ADDYSG

- ❑ Mynd i'r afael â phroblemau penodol i'r sector yma o'r diwydiant e.e. canfod hyfforddwyr profiadol cymwys; problemau cydsynio â rheolau iechyd a diogelwch.
- ❑ Rhannu adnoddau wrth ddelio â grwpiau mawr mewn cyrsiau ac ati

Byddem yn argymhell i'r grwpiau gyfarfod unwaith y mis ar y dechrau, gan ymestyn i unwaith y chwarter wedi i'r fforymau setlo i lawr. Yn amlwg, wrth gyfarfod yn bennaf yn nhymor y gaeaf bydd hyn yn addas i batrwm gweithio'r busnesau. Byddai pwyllgor llywio'r fforwm yn gorfod bod yn gryf, gan gael trefn gweithio bwrpasol ac effeithiol. Byddai hyn yn cyd-fynd law yn llaw â gwaith unrhyw Swyddog Datblygu Twristiaeth fyddai'n gweithio yn y Dyffryn.

Y peryglon wrth sefydlu fforymau i ddelio â phroblemau'r cwmnïau ydi-

- ❑ Diffyg ymddiriedaeth rhwng cwmnïau yn rhwystro cyd-weithio
- ❑ Llawer o bobol am gael dweud eu dweud yn y pwyllgorau, yn enwedig ar y dechrau wedi blynyddoedd o gasglu barnau a rhagfarnau ar eu pennau eu hunain
- ❑ Perygl i'r fforwm droi'n siop siarad wag os nad oes dim canlyniadau i'w gweld.
- ❑ Diddordeb yn edwino ar ol blynyddoedd wrth i'r fforwm fethu bod yn berthnasol i'r busnesau, fel y gwelir mewn sawl Siambr Fasnach erbyn hyn.

Gellir goresgyn y problemau hyn os bydd aelodau'r fforymau yn cadw meddwl agored am waith y fforwm, yn enwedig ar y dechrau; os ceir cadeirydd cryf ar y fforwm fydd yn cadw penffrwyng ar gymeriadau cryfion sydd yn siŵr o fod yn bresennol. Ac yn bennaf, os megir ymddiriedaeth rhwng y cwmnïau, fod y fforwm yno yn unig er mwyn hybu'r Dyffryn ym maes twristiaeth.

6.2 Prosiect 2 - Swyddog Datblygu Twristiaeth

I gyd-fynd law yn llaw gyda phrosiect y fforwm busnesau twristiaeth awgrymir y dylid cael swyddog i ddatblygu twristiaeth yn y Dyffryn.

AMCANION Y SWYDD

Bydd y Swyddog yn weithredol mewn amryw o ffyrdd, fydd yn y pen draw yn cyfrannu fel a ganlyn-

- ❑ Cyfrannu at ddatblygu cydweithrediad rhwng sefydliadau presennol yn y Dyffryn.
- ❑ Anelu cwmnïau at gymorth sefydliadau cyhoeddus.
- ❑ Datblygu systemau marchnata Dyffryn Nantlle i dwristiaeth.
- ❑ Cyfrannu at ddatblygiad mentrau newydd ym maes ymwelwyr.
- ❑ Arwain gyda datblygiad digwyddiadau yn y Dyffryn.

DYLETSWYDDAU'R SWYDDOG

- ❑ Hyrwyddo cydweithrediad rhwng cwmnïau yn y sector dwristiaeth yn y Dyffryn, yn ogystal â chwmnïau cynhenid yn y Dyffryn. Bydd hyn yn cynnwys trefnu cyfarfodydd unrhyw ffordd ym maes twristiaeth, a bod yn swyddog fyddai'n helpu i weithredu dymuniadau'r fforymau o ddydd i ddydd.
- ❑ Bod yn gyswllt parhaol rhwng sefydliadau twristiaeth yn y Dyffryn ac asiantaethau eraill, yn ogystal â chwmnïau a'i gilydd, fyddai'n golygu ymweld â'r cwmnïau o dro i dro i gynghori a rhoi atebion pan fo rhaid.
- ❑ Cyfeirio cwmnïau at gyrrff cyhoeddus fyddai'n gallu rhoi cymorth ymarferol ac ariannol iddynt. Byddai hyn yn golygu bod yn ymwybodol o'r holl grantiau sydd ar gael, yn ogystal â'r holl brosiectau ymarferol sydd yn bodoli.
- ❑ Bod yn rhan flaenllaw o strategaeth farchnata'r Dyffryn, gan lunio datganiadau i'r wasg ynglŷn ag unrhyw gynlluniau fydd ar waith.
- ❑ Cadw ffigurau holl sefydliadau'r Dyffryn er mwyn cadw golwg ar ddatblygiad y Dyffryn ym maes twristiaeth. Byddai'r ffigurau yma yn rhan o unrhyw geisiadau am arian cyhoeddus a phreifat yn y dyfodol, yn ogystal â bod yn asgwrn cefn i barhad unrhyw gynlluniau newydd fydd ar y gweill.
- ❑ Bod o gymorth i unigolion neu grwpiau fydd yn meithrin syniadau newydd am ddatblygiadau ym maes twristiaeth mewn ffordd positif, gan gynnig barn ac adborth positif, adeiladol iddynt wrth ddatblygu eu syniadau.
- ❑ Cydweithio gyda digwyddiadau presennol y Dyffryn er mwyn eu hybu, digwyddiadau fel Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Gŵyl Rhedyw, Carnifal Talysarn a Chynllun Bwyd Iach Trigonos, yn ogystal â bod yn rhan o ddatblygu unrhyw ddiwyddiadau pellach fyddai'n denu pobol i'r Dyffryn o'r tu allan. Byddai hyn yn golygu cydweithio gydag Adran Digwyddiadau Cyngor Gwynedd, Comisiwn Digwyddiadau Gogledd Cymru yn ogystal â chyrrff fel Comisiwn Ffilm Gogledd Cymru i ddenu pobol i'r Dyffryn.
- ❑ Bod yn glust i wrando mewn swyddfa fyddai'n siop alw i bawb fydd yn ymwneud â thwristiaeth yn y Dyffryn.

PROFFIL Y SWYDDOG

- ❑ Bydd gan y swyddog wybodaeth eang am dwristiaeth, yn lleol ac yn ehangach, ac o bosib yn berchen ar radd addas – gradd mewn twristiaeth a hamdden neu farchnata.
- ❑ Bydd adnabod Dyffryn Nantlle yn dda yn hanfodol i'r swydd.
- ❑ Person brwdfrydig ac egniol, ond fydd hefyd â phrofiad mewn delio gyda'r cyhoedd a sefydliadau cyhoeddus
- ❑ Arweinydd ysbrydoledig i ddiwydiant twristiaeth Dyffryn Nantlle!
- ❑ Byddai rhaid i raddfa cyflog y swyddog fod yn gystadleuol â swyddi cyffelyb yn y sector cyhoeddus er mwyn denu ymgeiswyr addas i'r swydd.
- ❑ Gallai'r swydd fod yn rhan amser, er mwyn ei datblygu ymhén amser i fod yn swydd fwy cynaliadwy gan dderbyn cyfraniadau preifat yn ogystal ag arian cyhoeddus.
- ❑ Gellid defnyddio amser gwirfoddol y fforymau busnesau i ddenu arian cyfatebol i gyflogi'r swyddog.

6.3 Prosiect 3 - Datblygu dolen Twristiaeth i Wefan Dyffryn Nantlle

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau bellach yn deall pwysigrwydd cael safle gwê ar gyfer eu cwmni. Mae'n ffordd gost effeithiol o farchnata eu cynnyrch ac yn ffordd o ddenu cwsmeriaid newydd. Mae busnesau ym maes twristiaeth wedi elwa yn fawr o'r wê dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi galluogi ymwelwyr i gasglu gwybodaeth fanwl am ardaloedd megis llety, atyniadau a gweithgareddau lleol. Yr hyn sy'n eithriadol bwysig os am farchnata ar y wê yw gwneud yn siŵr bod y cwsmer yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth yn sydyn ac fel arfer mae cwmnïau yn gwneud hyn mewn dwy ffordd.

Yn gyntaf mae pob busnes unigol yn cael safle gwê sydd yn rhoi'r holl wybodaeth am yr atyniad neu lety, yn cynnwys manylion sut i logi. Dylai'r wefan fod yn syml, cynnwys lluniau a dangos yn union beth sydd ganddynt i'w gynnig i'r cwsmer. Mae'n bosib cael arbenigwyr i lunio'r safle neu ddefnyddio meddalwedd pwrpasol eu hunain.

Yr ail ffordd yw cael safle gwê am yr ardal gyfan yn rhoi gwybodaeth fanwl i ymwelwyr am hanes yr ardal, beth yw'r dewis o lety sydd ar gael a pha atyniadau sydd yna. Dylai'r wefan yma gael enw syml fel bod ymwelwyr yn dod ar ei thraws wrth syrffio am wybodaeth. Yn ddefnyddol dylid cael cyfuniad o'r ddau uchod drwy gael gwefan ardal sydd yna yn cynnig dolenni i mewn i wefannau unigol.

Os edrychwn ar ardaloedd sydd yn ffinio â Dyffryn Nantlle ond sydd â hanes hirdymor o ddiwydiant twristiaeth gwelwn fod ganddynt i gyd wefannau llewyrchus sy'n llawn gwybodaeth i ymwelwyr. Rhai o'r rhain yw:-

www.llanberis.org
www.beddgelerttourism.com
www.porthmadog.co.uk
www.pwllheli.org.uk

Mae'r rhain yn safleoedd gwê sydd i gyd yn gymharol newydd ond gwyddom eu bod yn llwyddiannus drwy'r ffaith bod ffigyrau ymweld â'r safleoedd yn uchel a hefyd mae busnesau yn yr ardaloedd yn grediniol eu bod yn cael mwy o gwsmeriaid oherwydd y safle gwê. Roedd perchennog un gwesty ym Mhorthmadog yn honni ei fod yn cael 80% o'i ymwelwyr drwy'r safle gwê, roeddynt wedi bwcio ar ôl gweld y gwesty ar y wefan. Roedd perchennog gwesty arall yn Llanberis yn dweud bod 50% o'r gwesteion unai wedi bwcio dros y wê neu wedi cael gwybodaeth am y gwesty o'r safle gwê.

Sefydlwyd gwefan gymunedol www.nantlle.com gyda chymorth y Gronfa Risg Gymdeithasol drwy'r WCVA. Trigolion lleol dan ofal tiwtor sy'n gyfrifol am greu'r wefan ac mae gwaith datblygu'r safle a hyfforddi'r gwirfoddolwyr yn cael cefnogaeth ariannol gan Bartneriaeth Talysarn a Nantlle drwy raglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r wefan yn rhoi hanes holl bentrefi'r ardal ac yn rhoi

cyfle i gymdeithasau lleol rannu gwybodaeth am ddiwyddiadau. Mae adran hefyd am fusnesau lleol ac mae'n rhoi cyfle i unrhyw fusnes hysbysebu.

Hyd yn hyn nid oes adran arbennig i fusnesau twristiaeth ond credwn y dylid ystyried cael un. Fel y gwelwyd yn yr ardaloedd eraill mae potensial gwirioneddol o greu dolen arbennig i dwristiaid. Y gwaith mwyaf fyddai casglu'r holl wybodaeth am y busnesau a'i gyflwyno mewn ffordd ymarferol a diddorol. Byddai rhaid rhannu'r safle i benawdau gwahanol fel llety, atyniadau a gweithgareddau. Yna rhestru'r holl wybodaeth yn cynnwys manylion cysylltu â chyfeiriadau gwefan y busnesau unigol. Er bod y wefan ar hyn o bryd yn brosiect cymunedol credwn o ran y sector twristiaeth y dylai'r cwmnïau sydd am fod yn rhan o'r wefan gyfrannu yn ariannol at gost rhedeg y safle. Mae hyn eisioes yn digwydd mewn ardaloedd eraill lle mae cwmnïau yn fodlon cyfrannu gan eu bod yn cael cwsmeriaid yn ei sgil. Dylai'r swm fynd at gost tynnu lluniau, casglu'r wybodaeth a dylunio'r dudalen.

Yn ychwanegol i'r manylion am y busnesau penodol gellir rhoi awgrymiadau i ymwelwyr o weithgareddau posib yn yr ardal. Gellid cael manylion am deithiau cerdded a beicio, manylion am safleoedd pysgota ac unrhyw olion hanesyddol a diwylliannol. Hefyd gellir rhestru pa gyfleusterau sydd ym mhob pentref megis cyfleusterau parcio, toiledau, siopau a llefydd i fwyta. Mae'r posibilïadau yn eang a byddai modd ehangu'r safle we yn gyson gyda mwy o fanylion.

6.4 Prosiect 4 - Canolfan Wybodaeth/Bunkhouse

Gan fod diffyg ffocws yn Nyffryn Nantlle yn ddaearyddol ym maes twristiaeth, teimlwn y dylid buddsoddi mewn canolfan allai roi canolbwynt i ddiwydiant ymwelwyr yn y Dyffryn. Gellid, trwy gydweithrediad nifer o sefydliadau cynhenid yr ardal roi gwedd gwbl unigryw a Chymreig i'r cynllun, a byddai stamp diwylliant Dyffryn Nantlle yn rhan annatod o unrhyw gynllun.

Gwelir llwyddiant cynllun tebyg yn Nhrawsfynydd, lle mae menter 'Trawsnewid' yno wedi manteisio ar arian cyhoeddus a phreifat i agor canolfan sydd yn diwallu anghenion tebyg iawn i anghenion Dyffryn Nantlle yn y sector ddiwydiant sef

- ❑ Diffyg llety
- ❑ Diffyg ffocws diwylliannol canolog.
- ❑ Diffyg atyniad twristiaeth wedi ei leoli mewn safle lle y gall cymuned elwa'n uniongyrchol o'i bresenoldeb - yng nghanol pentref.

Mae canolfan Llys Ednowain yn Nhrawsfynydd yn cynnig llety ar ffurf 'Bunkhouse' gyda 24 o welyau, amgueddfa yn adrodd prif hanes yr ardal mewn ffordd arloesol a gafaelgar, gofod arddangos i artistiaid lleol, sgrin fawr yn dangos lluniau lleol o'r gorffennol yn ogystal â 'stafelloedd amlwrpas ar gyfer defnydd y gymuned leol.

Adnewyddwyd hen adeilad y COOP yn y pentref ar gyfer y cynllun, yn y lle cyntaf trwy rodd o £40,000 gan BNFL a NDA (Neuclear Decommissioning Agency) a atgyfnerthwyd gan grantiau Amcan 1.

Mae'r ganolfan yn fodd i nifer o atyniadau bychan lleol fel Yr Ysgwrn a'r eglwys leol i gydweithio wrth ddenu tripiâu ysgol Sul a phererinion. Mae'n fodd iddynt hefyd ddelio gyda thripiâu bysus ysgol ac ati mewn ffordd broffesiynol.

Byddai canolfan o'r fath yn sicr yn gaffaeliad i Ddyffryn Nantlle am nifer o resymau.

- ❑ Cyflenwi'r gofyn amlwg am lety rhad i ymwelwyr.
- ❑ Galluogi ymwelwyr i ddysgu am ddiwylliant Dyffryn Nantlle.
- ❑ Atynnu twristiaid i ganol pentrefi, twristiaid fyddai'n gwario yn y siopau, caffis a'r tafarndai lleol o bosib.
- ❑ Galluogi ymwelwyr i gael eu cynnwys mewn digwyddiadau yn y gymuned trwy ddefnyddio'r ganolfan i ddibenion y gymuned leol.
- ❑ Atynnu ymwelwyr fyddai'n cymryd rhan mewn gweithgareddau arbenigol y gallai sefydliadau eraill yn y Dyffryn elwa ohonynt e.e. beicio, deifio, mynydda, paragleidio ac ati.
- ❑ Atynnu pobol ifanc o'r grwpiau cymdeithasol AB1 fydd ag arian yn eu poced i'w wario'n lleol.
- ❑ Byddai'r ganolfan yn sicr yn creu swyddi yn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y Dyffryn.

Byddai'r ganolfan o bosib yn cynnwys nifer o'r nodweddion canlynol:

- ❑ Llety ar ffurf 'bunkhouse', lle mae gwely i'w gael a dillad gwely glân am £10 - £15 y noson
- ❑ Ystafell gyffredin.
- ❑ Ystafell gyfrifiaduron fechan, neu fynediad i'r wê fyd eang.
- ❑ Arddangosfa dreftadaeth neu amgueddfa fechan yn rhoi hanes y Dyffryn yn fras, arddangosfa allai arwain ac ysgogi ymwelwyr i ymweld ag atyniadau diwylliannol eraill fel Cae'r Gors a Chanolfan Uwchgwyrfai.
- ❑ Adeilad addas i gadw beiciau yn ddiogel.
- ❑ Ystafell bwrpasol i sychu siwtiau nofio tanddwr neu ddillad beicio mynydd.
- ❑ Mynediad at beiriant cywasgu aer deifio.
- ❑ Ystafell gyfarfod/bwyllgor/ddosbarth.
- ❑ Oriel/gofod arddangos.

Y broblem, mae'n debyg fyddai denu arian digonol i gyflenwi'r gost uchel fyddai cynllun o'r fath ei angen i'w wneud yn iawn - bu Trawsfynydd yn ffodus o gael symiau mawr o arian gan yr NDA, gallai canfod ffynhonnell arian debyg fod dipyn yn anos yn Nyffryn Nantlle.

6.5 Prosiect 5 – Hyfforddiant

Un o'r prif ffactorau wrth ddechrau unrhyw fusnes twristiaeth yw cael staff addas. Yn ddelfrydol dylai'r staff fod yn brofiadol ac wedi eu cymhwyso ar gyfer y gwaith. Ond o brofiad nifer o gwmnïau mae cael staff addas yn broses anodd. I ddweud y gwir yn ôl nifer o'r busnesau a holwyd yn rhan o'r astudiaeth yma mae'n anodd cael unrhyw staff i weithio ym maes twristiaeth. Oherwydd natur dymhorol y gwaith mae'n cael ei weld fel gwaith ar gyfer myfyrwyr neu i rai sy'n chwilio am waith rhan amser yn

hytrach na fel gyrfa. Mae barn gweithwyr mewn gwledydd eraill yn enwedig cyfandir Ewrop yn wahanol gyda thwristiaeth yn cael ei gysidro fel gyrfa lewyrchus.

Er mwyn i gwmnïau gael y staff maent eu hangen mae'n bwysig bod yr hyfforddiant iawn ar gael. Mae nifer o ganolfannau addysg yn cynnig cyrsiau penodol ym maes hamdden a thwristiaeth gyda chysiau hyd at safon gradd ar gael. Er hyn mae lle ar gyfer hyfforddiant mwy galwedigaethol a phenodol mewn ambell i faes. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn cael mewnbwn i'r math o hyfforddiant sydd ei angen. Yn ôl taflen gan Gyrfa Cymru, y prif sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt ym maes twristiaeth yw :-

- sgiliau cyfathrebu da
- parodrwydd i weithio oriau hyblyg
- sgiliau gwasanaeth cwsmer
- parodrwydd i ddysgu
- technoleg gwybodaeth

Yr hyn sydd ei angen felly yw cynnig pecynnau arbenigol o hyfforddiant, a byddai yn fanteisiol cynnal yr hyfforddiant yma yn lleol gan arbenigwyr yn y maes. Mae Gyrfa Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru eisioes yn ateb rhai o'r gofynion yma drwy gynnig gweithdai a phecynnau penodol ym maes twristiaeth. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chyflogwyr i ddarganfod ble mae prinder sgiliau a llunio strategaeth hyfforddi drwy gydweithio a phartneriaid addysg. Er mwyn darganfod pa brinder penodol sydd yn poeni cyflogwyr yn Nyffryn Nantlle, dylid cynnal cyfarfod gyda'r cyflogwyr a chael arbenigwyr ym maes hyfforddiant yno. Byddai hyn yn rhoi darlun manylach o'r angen i gynnal cyrsiau penodol yn yr ardal. Mae Gyrfa Cymru yn fwy na bodlon bod yn rhan o unrhyw ddigwyddiad.

Rydym wedi trafod pwysigrwydd y sector gweithgareddau awyr agored yn helaeth yn yr adroddiad yma ond yn ôl gwaith ymchwil diweddar gan Bartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru ychydig iawn o bobl leol sydd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Mae llai byth wedi eu cymhwyso fel hyfforddwyr gydag ystadegau yn profi mai 4% yn unig o hyfforddwyr yn y maes sy'n Gymry Cymraeg. Pan mae rhywun yn cysidro bod y sector yn cyfrannu £140,000,000 y flwyddyn i'r economi yng Ngogledd Orllewin Cymru mae'n hanfodol i hyfforddi mwy o bobl leol yn y maes. Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi cael arian gan y Cynulliad am dair blynedd ac wedi cyflogi 4 swyddog dros yr ardal. Maent wrthi'n sefydlu fforymau awyr agored lleol a cheisio cyfeirio pobl at y cyrsiau priodol. Maent yn anelu'r gwaith ar hyn o bryd at bobl ifanc er mwyn eu denu i'r sector i weithio yn y dyfodol. Mae rhai grwpiau o fewn Dyffryn Nantlle yn elwa gyda grŵp 'Draenen y Nant' o Dalysarn a 'Mothers Climbing Walls' ym Mhenygroes wedi cael eu sefydlu. Mae'r ddau grŵp yn cael hyfforddiant a allai eu helpu i gael swyddi yn y maes. Mae cynlluniau gan y gwasanaethau ieuencid hefyd i gymhwyso hyfforddwyr i roi blas o'r gweithgareddau i blant. Credwn y dylid hybu'r math yma o brosiectau ac os datblygir canolfan o fewn y Dyffryn y byddwn wedi hyfforddi ein pobl ein hunain i weithio yno.

6.6 Prosiect 6 - Brandio a Mabinogi

Yn y blynyddoedd diwethaf mae datblygiad twristiaeth ddiwylliannol wedi dod i'r amlwg. Mae nifer o strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol wedi cael eu llunio, yn cynnwys Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru; Strategaethau Diwylliannol a Chyffredinol 2000 - 2010 Bwrdd Croeso Cymru. Yn ogystal mae gan y Cynulliad Cenedlaethol Strategaeth Ddiwylliannol a Datblygu Economaidd. Pwrpas rhain yw edrych ar y diwydiant ymwelwyr mewn ffordd gynaliadwy drwy roi pwyslais ar ddenu ymwelwyr i ddysgu am ddiwylliant ardal. Gan fod Cymru yn wlad mor gyfoethog ei diwylliant a'i hanes gall y math yma o dwristiaeth gwmpasu nifer o elfennau cynaliadwy yn cynnwys iaith, diwylliant a hanes unrhyw ardal.

Mae hyn yn arwain at frandio ardaloedd sydd yn arbenigo mewn elfennau diwylliannol arbennig, gwelwyd hyn yn digwydd yn amlwg mewn ardaloedd o Loegr; gydag ardal Skipton yn Swydd Efrog yn brandio ei hun fel 'Herriot Country'; ardal y llynnoedd yn cysylltu ei hun â Beatrix Potter; ac ardal Dorset yn brandio ei hun mewn cysylltiad â Thomas Hardy. Yn ôl Bwrdd Croeso Cymru yn eu 'Strategaeth Twristiaeth i Gymru' dwy o brif nodweddion brandio yw 'diwylliant a threftadaeth unigryw' a 'chwedlau a myth'.

Gan fod Dyffryn Nantlle yn un o ardaloedd mwyaf cyfoethog Cymru mewn chwedlau a myth, gyda hanes y Mabinogi wedi ei leoli yng Nghaer Arianrhod ger Dinas Dinlle a Llyn Nantlle wedi ei enwi ar ôl glaniad Llew Llaw Gyffes wrth y llyn ar ffurf eryr, byddai pwysleisio lle'r Dyffryn ym myth a chwedl Cymru yn ffordd wreiddiol iawn o farchnata'r Dyffryn i ymwelwyr.

Gellid brandio'r Dyffryn fel 'Dyffryn y Mabinogi' mewn nifer o ffyrdd yn cynnwys: -

- ❑ Codi arwyddion wrth ddod i mewn i'r Dyffryn yn hawlio'r ffaith fod y Dyffryn yn meddu ar le canolig yn chwedlau'r mabinogi. Byddai'r rhain o bosib yn rhoi rheswm i dwristiaid dorri ei siwrnai heibio'r Dyffryn i ddysgu mwy.
- ❑ Codi arwyddion a lleoliadau gwybodaeth wrth brif safleoedd y Dyffryn yn y chwedlau.
- ❑ Llunio llwybrau cerdded yn dilyn hanesion y Mabinogi.
- ❑ Cydweithio gydag atyniadau diwylliannol eraill i roi pecyn amrywiol i fudiadau sydd am ymweld â'r Dyffryn.
- ❑ Cael cydweithrediad a chynlluniau ym Mharc Glynllifon. Gellir defnyddio Glynllifon fel porth drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd yno megis yr oriel, caffi a'r siop a rhoi gwybodaeth yma am hanes y Mabinogi ar hyn sydd i'w weld yn yr ardal.
- ❑ Trefnu digwyddiadau o ryw fath fyddai'n pwysleisio balchder pobol Dyffryn Nantlle yn eu treftadaeth yn ymwneud â'r Mabinogi - gŵyl ddiwylliannol flynyddol y Mabinogi neu debyg fyddai'n golygu codi ymwybyddiaeth genedlaethol i frand y Dyffryn, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal yn ei sgil.
- ❑ Ei blethu i mewn i brosiect 4 gan gynnig arddangosfa mewn canolfan wybodaeth am hanes y Mabinogi.

Byddai'r cynllun hwn yn cynnig y bendithion canlynol i Dyffryn Nantlle: -

- ❑ Cyfle i ymwelwyr dorri eu taith yn y Dyffryn wrth yrru heibio trwy godi chwilfrydedd i ddysgu mwy.
- ❑ Denu grwpiau mawr o dwristiaid o sefydliadau addysgol fyddai'n cyd-fynd â'r canolfannau treftadaeth a'r sefydliadau addysg presennol.
- ❑ Denu ymwelwyr ABl fyddai'n debyg o wario yn yr ardal, gan barchu ein diwylliant a chynnal diwydiant twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy.
- ❑ Rhoi eidentiti i'r Dyffryn sydd yn perthyn i ardaloedd eraill fel Pwllheli, Llanberis a Chaernarfon, ac felly'n gwneud y Dyffryn yn haws ei farchnata yn ei gyfanrwydd.
- ❑ Byddai'n gymharol rhad i'w weithredu a gellid ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd mewn cydweithrediad â datblygiadau eraill.
- ❑ Byddai'n codi ymwybyddiaeth yn y Dyffryn ei hun o'n chwedlau, gan roi balchder ymysg pobol ifanc yn eu treftadaeth.

6.7 Prosiect 7 - Datblygu Dorothea

Fel y gwyddom, mae hen chwarel Dorothea yn safle sydd wedi bod yn destun anghydweld a gwrthdaro ym maes cynllunio dros y blynyddoedd diweddar, ac yn parhau i wneud ar hyn o bryd. Er hyn, mae'n debyg fod gan bawb yn y Dyffryn farn ar beth ddylai gael ei wneud â'r safle - wrth holi busnesau'r Dyffryn roedd bron pob un â barn bendant ynglŷn â datblygiad y safle.

Yn anffodus, wrth drafod y chwarel, ar hyn o bryd mae perchnogaeth y chwarel yn ansicr, a'r gwir ydi fod pob cynllun a gynigir yn haniaethol hyd nes y bydd perchnogaeth bendant wedi ei sefydlu, ac yn wir, perchennog y chwarel fydd â'r gair olaf am unrhyw ddatblygiad a ddigwydd ar y safle. Er hyn, mae'n wir i ddweud mai chwarel Dorothea ydi'r prif atyniad twristiaeth yn rhan uchaf Dyffryn Nantlle gan ddenu miloedd yno bob blwyddyn i ddeifio neu i gerdded. Yn anffodus, gwelwyd trwy holi nifer o ddeifwyr sydd yn defnyddio'r chwarel fod y budd a geir o'u hymweliadau i'r Dyffryn yn agos iawn i ddim.

Rydym wedi rhannu'r prosiectau posib yn Dorothea i 5 categori. Rhain yw'r syniadau sydd wedi codi o'r holiaduron.

Prosiectau Tymor Byr

Mae'r rhain yn brosiectau a allai gychwyn ar y broses o gael deifwyr chwarel Dorothea i wario yn y Dyffryn, Ac yn gynlluniau sydd yn amlwg yn gwblw ddibynnol ar gefnogaeth perchennog y chwarel.

Byddai cael adnodd fyddai'n cyflenwi byrbrydau i'r deifwyr o fudd, gan eu bod ar hyn o bryd yn dod a'u bwyd i gyd gyda nhw, ac yn gwario dim yn y Dyffryn.

Mae nifer o'r deifwyr ar hyn o bryd yn gweld angen dirfawr am ddarparwr aer wedi ei gywasgu iddynt, byddai darparwr lleol yn arbed siwrnai o 20-30 milltir i ail lenwi rhwng ymweliadau i waelod y llyn.

Prosiectau Treftadaeth

Er bod llawer o waith caled wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd i gynnal a chadw'r dreftadaeth bensaernïol a pheirianyddol yn y chwarel mae pryder fod nifer o adeiladau o bwys hanesyddol dan fygythiad gan y diffyg sicrwydd am y safle. Mae'r prosiectau a gynigir yn amrywio o gynnal a chadw'r adeiladau yn y chwarel yn well, i adnewyddu'r injan drawst fel atyniad, codi amgueddfa debyg i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis, ac yn amlwg, gallai unrhyw un o'r datblygiadau hyn fynd law yn llaw ag unrhyw un o'r prosiectau eraill a gynigir.

Prosiectau Amgylcheddol

Mae'r prosiectau yma yn ymwneud â datblygiad Dorothea fel parc gwledig. Gall hyn fynd law yn llaw â datblygiad Dorothea fel canolfan ddeifio, neu ganolfan dreftadaeth. Yn ogystal â hyn, gall y datblygiad fod yn rhan o ddatblygiad ehangach allai gynnwys chwarel Gloddfa Glai neu Lyn Nantlle Isaf.

Datblygiad Dorothea fel Canolfan Ddeifio

Dyma'r datblygiad mwyaf amlwg i'r chwarel, gan gymryd defnydd presennol y chwarel i ystyriaeth. Gallai cynllun o'r fath gynnwys elfennau o redeg cyrsiau deifio; canolfan breswyl; rheoli deifio i lefelau fyddai'n lleihau damweiniau; siambr hyperbaric (i roi triniaeth i ddeifwyr sydd yn dioddef o Nitrogen Narcosis); neu ganolfan wybodaeth ddeifio.

Atyniadau o bwys yn Dorothea

Gwelwyd o'r gwaith ymchwil i fusnesau twristiaeth y byddai croeso cyffredinol i ddatblygiad o bwys ym maes twristiaeth yn y chwarel. Cynigwyd y cwestiwn haniaethol yma yn yr holiaduron gan fod llawer o son yn y wasg am ddatblygiadau yn chwarel Glyn Rhonwy yn Llanberis. Fe soniwyd yn y cwestiwn am ddatblygiad fyddai'n cyflogi 300 neu fwy o bobol. Yn gyffredinol teimlir y byddai denu atyniad o'r fath yn rhoi hwb sylweddol i fusnesau ymwelwyr yn y Dyffryn, yn ogystal â'r busnesau cynhenid. Byddai datblygiad o'r fath o bosib' yn rhoi ffocws i'r Dyffryn i gyd, nid yn unig yn y sector dwristiaeth.

6.8 Prosiect 8 – Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored

Beicio

Mae beicio yn cael ei gysidro fel un o'r prif weithgareddau i gadw yn heini ac yn ffordd gynaliadwy o deithio. Mae gennym ni yn Nyffryn Nantlle un o'r lonydd beicio pwrpasol cyntaf yng Nghymru sef Lôn Eifion. Cafodd hon ei mabwysiadu fel lôn feicio yn yr 80au ar ôl iddi beidio bod yn ffordd i loriau. Yn wreiddiol roedd yn mynd o Bantglas i Lanwnda ond bellach mai'n mynd holl ffordd o Gaernarfon i Fryncir. Mae hefyd yn rhan o'r rhwydwaith 'Lôn Las Cymru' sydd yn rhwydwaith genedlaethol. Golyga hyn ei bod yn bosib ei defnyddio fel rhan o daith llawer hirach drwy Gymru.

Mae trafodaethau wedi eu cynnal i agor linc newydd o Lôn Eifion i fyny Dyffryn Nantlle. Mae llwybr eisoes wedi ei nodi cyn belled â Nantlle a fydd yn dilyn yr hen drac rheilffordd o Benygroes i Nantlle drwy chwarel Dorothea. Credwn hefyd bod lle i edrych ar ddatblygu'r llwybr yma at Rhyd Ddu yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnig rhai o'r golygfeydd harddaf i feicwyr ac yn linc i rai o atyniadau poblogaidd Eryri. Gellid cyfuno beicio gyda thaith ar y trêen o Gaernarfon a byddai yn denu ymwelwyr newydd i Ddyffryn Nantlle.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cwmni wedi sefydlu yn Nhalysarn o'r enw Cycle Wales, sy'n arbenigo ym mhob agwedd o feicio. Mae'n cynnig gwasanaeth gwerthu a thrwsio beiciau, ac yn un o'r prif ganolfannau ar gyfer hyfforddiant ym maes beicio. Agwedd arall y cwmni yw cynnig gwyliau neu deithiau beicio yn yr ardal. Agwedd mwyaf llewyrchus y cwmni ar hyn o bryd yw hyfforddiant gyda chysiau yn cael eu cynnal unwaith y mis. Mae ganddynt gyrsiau yn amrywio o 1 i 10 diwrnod gyda'r cyrsiau yn cael eu strwythuro yn ôl gofynion y cwsmer. Maent yn hynod boblogaidd gyda phobl yn teithio o bob cwr o Brydain.

O ran yr ochr teithiau beics, maent yn cynnig tri math sef taith diwrnod, teithiau o ganolfan unigol a gwyliau beicio aml ganolfan. Mae'r daith diwrnod ar gael i ymwelwyr a phobl leol ac yn cael eu trefnu yn ôl gallu'r beicwyr. Mae'r teithiau o ganolfan unigol yn golygu bod y beicwyr yn aros mewn un llety ac yn cael eu tywys ar deithiau gwahanol yn ddyddiol. Bwriad y teithiau aml ganolfan yw bod ymwelwyr yn beicio o un ardal i'r llall gan aros noson neu ddwy a bod eu bagiau yn cael eu cludo ar eu rhan. Mae Cycle Wales yn cyfaddef nad ydynt wedi marchnata gymaint â hynny ar y teithiau hyd yn hyn ond credwn fod gan Ddyffryn Nantlle botensial mawr i ehangu'r math yma o wasanaeth. Un rhwystr amlwg i unrhyw fenter feicio o'r fath yw diffyg llety sy'n addas i feicwyr. Nid oes yr un llety sy'n arbenigo ym maes beicio gyda chyfleusterau fel ystafelloedd sychu dillad gwlyb a sied ddiogel ar gyfer y beics. Yn ôl Dewi Jones, perchennog Cycle Wales byddai yn fanteisiol iawn i Ddyffryn Nantlle sefydlu gwesty neu hostel sy'n arbenigo ar wasanaethau i feicwyr. Ar hyn o bryd mae gwesty 'Nantlle Vale Hotel' ar werth a chredwn y dylai grŵp neu unigolion lleol edrych ar y posibilrwydd o ddenu arian cyhoeddus neu breifat i drosi hwn yn llety pwrpasol ar gyfer beicwyr ac wrth gwrs unrhyw ymwelwyr eraill i'r Dyffryn.

Agwedd arall o feicio y dylid edrych arno yw beicio mynydd ac mae perchennog Cycle Wales yn awgrymu y byddai Dorothea yn addas ar gyfer 'cycle cross'. Mae

hwn yn weithgaredd beicio sydd yn gyfuniad o feicio mynydd a beicio trac ac mae'n cynyddu mewn poblogrwydd. Ond byddai rhaid gwneud mwy o ymchwil manwl cyn symud ymlaen oherwydd mae posibilrwydd o ddyblygu cynlluniau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal fel Coed y Brenin a hefyd mae sôn am sefydlu canolfan feicio mynydd yng Nglyn Rhonwy, Llanberis.

Mae gan y cwmni nifer o brosiectau ar y gweill ond maent yn awyddus iawn i gydweithio a grwpiau lleol sydd yn awyddus i hybu beicio yn Nyffryn Nantlle.

Cerbydau 4x4 a Beiciau Modur

Mae hwn yn weithgaredd sy'n tyfu mewn poblogrwydd gyda nifer o draciau pwrpasol wedi eu creu o gwmpas y wlad. Nid oes trac addas yn ardal Dyffryn Nantlle ar hyn o bryd ond mae grŵp o'r enw 'The Muddy Muckers' wedi cael ei sefydlu. Gobaith y grŵp yma o bobl ifanc yw darganfod safle addas ar gyfer beiciau trêls a beiciau quad. Mae rhai unigolion wedi bod yn defnyddio llain o dir yn chwarel Dorothea ond oherwydd y broblem perchnogaeth nid yw'n addas a byddai yn amhosib cael yswiriant priodol. Mae trafodaethau yn cymryd lle i ganfod safle addas yn yr ardal ar hyn o bryd, mae hyn yn bwysig oherwydd y problemau sy'n codi wrth i feicwyr ddefnyddio ardaloedd yn anghyfreithlon. Mae'r gweithgaredd yma yn werth ei gysidro fel adnodd twristiaeth ond mae'n hynod bwysig ei fod yn cael ei redeg yn iawn a bod mesurau iechyd a diogelwch priodol yn bodoli.

Canŵio

Mae canŵio yn weithgaredd poblogaidd awyr agored ond yn yr ardal yma mae hefyd yn fater sensitif. Mae ychydig o wrthdaro rhwng y sefydliadau canŵio a chymdeithas y pysgotwyr sydd yn berchen ar hawliau defnydd yr afonydd. Ond credwn drwy gydweithrediad y gellid dod i gyfaddawd fel bod canŵio a physgota yn gallu cyd redeg ar ein llynnoedd ac afonydd. Byddai rhaid darganfod ffordd fel nad yw canŵio yn effeithio ar y pysgodfeydd a hefyd eu bod yn cyfrannu yn ariannol ac yn ymarferol i'r gwaith cynnal a chadw. Os gellir dod i gyfaddawd dylid ystyried marchnata canŵio ar Lyn Nantlle ac efallai ar ran o'r afon Llyfni. Byddai modd cael grŵp lleol yn ardal Nantlle a fyddai yn cynnig hyfforddiant arbenigol ac yn llogi cyfarpar.

Partneriaeth Paragleidio

Cynllun fydd hwn fydd yn bartneriaeth rhwng ffermwyr lleol fyddai â diddordeb mewn arallgyfeirio i faes twristiaeth a chlybiau paragleidio lleol. Byddai'r cynllun yn cynorthwyo paragleidwyr i gael mynediad i safleoedd lansio addas ar lethrau mynyddoedd trwy gydweithredu â ffermwyr lleol trwy ddefnyddio cerbydau gyriant pedair olwyn neu feiciau quad addas.

Manteision i'r ffermwr

- ❑ Manteision ariannol - byddai paragleidwyr o bosib yn fodlon talu £5 - £10 yr un am drafnidiaeth i safleoedd lansio ar ochor y mynyddoedd.

- ❑ Byddai'r busnes yn digwydd yn yr haf – adeg sydd yn llai prysur i nifer o ffermydd mynydd
- ❑ Bydd y ffermwr yn berchen ar fwy o reolaeth ar bwy sydd yn defnyddio eu tir i baragleidio nag sydd yn digwydd ar hyn o bryd dan ddeddfau 'hawl i grwydro'.
- ❑ Gallu hybu safleoedd gwerysyla neu debyg sydd yn berchen iddynt eisoes i farchnadoedd arbenigol.

Manteision i'r paragleidiwr

- ❑ Arbed cario canopi paragleidio trwm am oriau i fyny llethrau mynydd.
- ❑ Datblygu perthynas dda gyda ffermwyr - perthynas sydd yn aml dan straen mewn nifer o ardaloedd gan nad ydi ffermwyr yn elwa o'u presenoldeb
- ❑ Datblygu safleoedd paragleidio newydd y tu allan i'r safleoedd sydd yn cael eu defnyddio yn barod.

Manteision i'r economi

- ❑ Arian yn dod i mewn i'r ardal o'r paragleidiwr i'r ffermwr.
- ❑ Mwy o bobol yn dod i mewn i'r Dyffryn, gyda'r potensial o wario ymhellach
- ❑ Posibilrwydd o swydd rhan amser yn cael ei chreu.
- ❑ Datblygiad y Dyffryn fel marchnad i ddigwyddiadau awyr agored arbenigol.

Gallai'r cynllun ddigwydd mewn mwy nac un ffordd –

1. Menter breifat gan ffermwr fyddai'n galluogi paragleidwyr i ymweld â'r fferm, gan dalu i gael eu cario i'r llethr lansio.
2. Partneriaeth rhwng ffermwr â chymdeithasau paragleidio fyddai'n galluogi i gymdeithasau drefnu ymlaen llaw fod grwpiau yn ymweld, a bod y grwpiau yn talu i gal eu cludo i'w llethrau lansio
3. Unigolyn yn talu am hawl gan ffermwr i gludo paragleidwyr i lethrau lansio, gan redeg cwmni paragleidio fyddai'n manteisio o bosib ar gytundebau â nifer o ffermwyr.

Gallai'r cynllun ddatblygu i fod yn ganolfan baragleidio yn y dyfodol, ond byddai rhaid mynd i'r afael â nifer o egwyddorion yn cynnwys yswiriant a hyfforddiant.

Byddai cysylltu â chymdeithasau paragleidio lleol yn fan cychwyn da er mwyn canfod pa leoliadau o fewn y Dyffryn fyddai'n addas ar gyfer paragleidio.

6.9 Prosiect 9 - Canolfan Arlunio

Er bod cynllun o'r fath wedi bodoli yn y Dyffryn yn y gorffennol, teimlir y byddai atgyfodi cynllun tebyg o fudd i ddenu twristiaid i un o ddyffrynnoedd arlunio enwocaf Gogledd Cymru. Efallai y byddai'n werth ystyried sefydlu canolfan gelf breswyl mewn partneriaeth â chynlluniau mewn meysydd eraill ee treftadaeth neu fentrau awyr agored.

Byddai canolfan o'r fath yn cynnig cyrsiau preswyl a dyddiol mewn celf o bob math, gan gynnig cyfleoedd i arlunwyr weithio mewn nifer o leoliadau o fewn Gwynedd a Môn, gan ddefnyddio Dyffryn Nantlle fel canolfan. Efallai mai'r ffordd ymlaen fyddai sefydlu canolfan o'r fath mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus ym myd addysg neu'r celfyddydau.

Gallai cynllun o'r fath fynd law yn llaw â'r prosiect presennol yn y Barics yn Nantlle, gan fod nifer o'r tenantiaid yno ar hyn o bryd yn gweithio ym maes celfyddyd. Hefyd gallai Canolfan Llys Llywelyn fod yn rhan o'r cynllun gan ei fod yn ofod mor ddefnyddiol. Yn ogystal â hyn mae nifer o grwpiau lleol wedi cychwyn yn ddiweddar fel y Clwb Didordebau (Hobbies Club) a'r Clwb Camera. Byddai modd cynnal arddangosfeydd o waith yr aelodau a rhoi siawns iddynt werthu eu gwaith ar lefel ehangach. Mae canolfan Trigonos eisoes yn cynnig cyrsiau arbenigol ym maes Celf ac efallai dylid ystyried ehangu ar hyn a chydweithio ar grwpiau lleol i farchnata'r ardal a denu mwy o ymwelwyr arbenigol ym maes celfyddyd.

Manteision i'r Ymwelwyr

- ❑ Canolfan yn arbenigo mewn celf yn cynnig lleoliad delfrydol i ddylunio.
- ❑ Lleoliad canolog rhwng Eryri a'r môr
- ❑ Cyrsiau'n cynnig hyfforddiant mewn nifer agweddau o gelf.
- ❑ Manteisio ar wybodaeth gweithwyr lleol sydd â gwybodaeth eang am yr ardal leol.

Manteision i ganolfan o'r fath

- ❑ Denu ymwelwyr o bedwar ban fyddai'n fodlon talu premiwm am ddilyn cwrs mewn canolfan o safon mewn ardal mor addas
- ❑ Gallu magu cysylltiadau gydag awdurdodau addysg a chyrff cyhoeddus ym maes Celf fyddai'n gallu rhoi busnes i'r ganolfan yn ystod adegau tawel y flwyddyn.

Manteision i'r economi leol

- ❑ Creu swyddi fyddai'n talu'n dda i diwtoriaid a rheolwyr trwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â swyddi tymhorol eraill.
- ❑ Sefydlu Dyffryn Nantlle fel marchnad arbenigol i arlunwyr ac ati.
- ❑ Denu pobol i'r Dyffryn fyddai'n gwario mewn sefydliadau eraill.

6.10 Prosiect 10 – Twristiaeth Amgylcheddol

Rydym eisoes wedi trafod yn helaeth yn yr adroddiad bod gan Ddyffryn Nantlle rhai o'r elfennau gorau naturiol i ddenu twristiaid. Rydym hefyd wedi trafod pwysigrwydd gweithgareddau awyr agored i'r sector. Ond mae un syniad gwahanol ac eithaf arloesol yn cael ei drafod gan rai unigolion lleol sef cynnig gwyliau gydag elfen addysgol iddynt. Y syniad yw cynnig cyrsiau amgylcheddol yn yr ardal. Yr enw swyddogol ar y math hwn o gyrsiau yw 'permaculture'. Mae'n ffordd o gynnig cyrsiau i ymwelwyr a phobl leol mewn agweddau o warchod yr amgylchedd a

gwneud gwelliannau i'r ardal ar yr un pryd. Gellir ystyried agweddau o gadwraeth, amaethyddiaeth, coedwigaeth a hanes diwylliannol. Mae'n bosib drwy ei drefnu yn iawn i unigolion ennill cymhwyster swyddogol. Gallai'r cyrsiau gael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellid cysidro cwrs dysgu Cymraeg yn rhan o ddysgu crefft arall. Gellid cael cyrsiau yn amrywio o ran hyd a chynnwys, ond eu bod i gyd gyda'r syniad o ddatblygu cynaliadwy yn perthyn iddo. Mae hwn yn syniad sy'n bendant werth ei ystyried ac sy'n tyfu mewn poblogrwydd ym mhob rhan o'r byd.

6.11 Marchnad Cynnyrch Lleol

Mae poblogrwydd y syniad o farchnad cynnyrch lleol yn cynyddu oherwydd y diddordeb i fyw bywyd mwy cynaliadwy a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Oherwydd hyn mae trafodaethau yn cymryd lle i sefydlu marchnad fwyd lleol yn Nyffryn Nantlle. Lansiodd adroddiad yn Ebrill 2006 'Astudiaeth Dichonolrwydd ar gyfer Prosiect Bwyd yn Nyffryn Nantlle'. Mae'n trafod y syniad o sefydlu marchnad fwyd lleol neu siop symudol. Byddai cynhyrchwyr sy'n bodoli yn lleol yn cyflenwi'r farchnad ac efallai gellir annog mwy o gynhyrchwyr lleol. Awgrymir y gallai'r farchnad gyflenwi ysgolion lleol yn ogystal.

Y prif gynnyrch sydd yn cael ei ystyried yw llysiau a ffrwythau, cig oen ag eidion, bara a chacennau. Mae grwpiau fel Llysiau Lleu, Bwyd Iach Trigonos a nifer o ffermydd eisoes yn gwerthu'n lleol. Drwy sefydlu marchnad leol byddai nid yn unig yn cynnig gwasanaeth i drigolion lleol ond hefyd yn atyniad ar gyfer ymwelwyr. Byddai yn rhaid bod yn ofalus nad yw yn cael effaith negatif ar y siopau lleol ond credwn drwy gydweithio y gallai fod yn adnodd newydd pwysig yn yr ardal.

Tabl Pwysigrwydd Prosiectau

	<u>Prosiect</u>	Cyfrifoldeb Sefydlu	Ystod Amser Sefydlu	Ffynonellau Cyllid Posib	Cost
1	Fforwm Busnesau	Sefydliadau presennol Dyffryn Nantlle	Tymor Byr	Antur Nantlle; Partneriaeth Talysarn a Nantlle; Preifat	Isel
2	Swyddog Datblygu Busnesau	Antur Nantlle, Partneriaeth Talysarn a Nantlle, Y Fforymau arfaethedig	Tymor Byr	Cyngor Gwynedd; Arian Amcan 1 Cydgyfeiriant, Cronfa Ymddiriedolaeth (Trust Fund)	Canolig
3	Datblygu linc twristiaeth i safle gwe www.nantlle.com	Antur Nantlle, Partneriaeth Talysarn a Nantlle - Y Fforymau arfaethedig	Tymor Byr	Arian Preifat (Cronfeydd hysbysebu cwmnïau yn y sector dwristiaeth), Arian Cyhoeddus	Isel
4	Canolfan Gwybodaeth	Fforymau Busnes; Partneriaeth Talysarn a Nantlle; Antur Nantlle; Cynghorau lleol; Cyrff yn y sector dwristiaeth; partneriaethau yn y sector breifat	Tymor Canol i Dymor Hir	Arian Amcan 1 Cydgyfeiriant; Arian Cronfa Wledig Gwynedd; Arian Interreg; Cronfa'r Loteri Fawr; Bwrdd Croeso Cymru; WDA; Arian Preifat	Uchel
5	Hyfforddiant	Fforymau; Cwmnïau Preifat yn cynnwys y canolfannau Addysg yn y Dyffryn; Antur Nantlle	Canolig	Gyrfa Cymru; Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru; Sector Breifat	Canolig

6	Brandio a Mabinogi	Antur Nantlle; Partneriaeth Talysarn a Nantlle; Fforymau Busnesau; Swyddog Datblygu Twristiaeth; Cyngor Gwynedd; Bwrdd Croeso Cymru;	Canolig	Cyngor Gwynedd; Amcan 1 Cydgyfeiriant; Cronfa Interreg IIIA; Bwrdd Croeso Cymru; WDA; Cronfa Dreftadaeth y Loteri; Y Gronfa Loteri Fawr; Cymunedau'n Gyntaf	Canolig
7	Prosiectau chwarel Dorothea	Preifat / Gwirfoddol / Cyhoeddus	Tymor Hir	Yn amrywio o gynllun i gynllun – dyfodol yn ansicr am statws y chwarel	Canolig
8	Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored	Preifat; Partneriaethau Rhwng gwahanol grwpiau	Tymor Canol	Yn Amrywio o gynllun i gynllun	Isel - Uchel
9	Canolfan Arlunio	Partneriaethau Cyhoeddus a Phreifat	Tymor Canol	Yn dibynnu ar natur sefydlu'r cynlluniau	Uchel

Rhan 7 - Casgliadau

Y prif gasgliad sydd yn dod i'r amlwg wedi'r gwaith ymchwil yw pwysigrwydd twristiaeth i'r economi yn genedlaethol ac yn lleol. Mae yn un o'r ychydig sectorau o'r economi lle mae tyfiant. Ond yn anffodus nid yw Dyffryn Nantlle yn gwireddu ei photensial fel canolfan dwristiaeth. Mae yma gymaint i'w gynnig o ran ei hadnoddau naturiol, gyda'r ardal ar gyrion mynyddoedd Eryri ac arfordir Sir Gaernarfon. Mae'n dod i'r amlwg o drafod yn lleol mai diffyg hanes o sefydlu twristiaeth yw'r prif ffactor yn ogystal â diffyg gwybodaeth a chyllid. Nid yw'r cefndir a thraddodiad o dwristiaeth yn y Dyffryn i'w gymharu ag ardaloedd cyfagos fel Beddgelert a Llanberis.

Er mwyn newid y drefn yma rydym wedi cynnig nifer o argymhellion pendant yn yr adroddiad. Mae rhai yn syniadau eithaf arloesol ond un ffaith sy'n cyfuno'r holl syniadau yw bod rhaid sefydlu strwythur fel bod pobl leol yn gallu dod at ei gilydd i drafod. Rhaid gwneud iddynt feddwl sut gall twristiaeth weithio i'r ardal ac iddynt hwy. Mae angen cael barn arbenigwyr ar gyfleon cyllido ac unrhyw gymorth sydd ar gael gan gyrff cyhoeddus. Yn ein barn ni mae'n eithriadol o bwysig bod unrhyw ddatblygiad, boed yn fach neu'n fawr, yn codi o fewn yr ardal a hynny heb ddibynnu'n unig ar fuddsoddiad mawr gan gwmnïau cenedlaethol. Yn aml mae busnesau llai a theuluol yn well i ardal yn y tymor hir.

Atodiadau

1. Map o ardal Dyffryn Nantlle
2. Rhestr cyfranwyr
3. Dadansoddiad o'r Holiaduron

CYFRANWYR I'R ADRODDIAD

CYRFF CYHOEDDUS AC UNIGOLION

Alun Fôn Williams	-	Swyddog Datblygu Twristiaid, Cyngor Gwynedd
Siân Davies	-	Cyfeillion Cae'r Gors
Canolfan Llys Ednowain,		Trawsfynydd
Dafydd Williams	-	Cydlynnydd - Partneriaeth Talysarn a Nantlle
Dewi Jones	-	Cycle Wales
Elliw Ellis-Davies	-	ATOM (PR) Cyf
Fiona Williams,	-	Gyrfa Cymru
Huw Huws	-	Cymdeithas Seiont Gwyrfaï Llyfni
Huw Percy	-	Goriad Gwyrdd Eryri
Kelvin Roberts	-	Swyddog Adfywio Gwyrfaï / Nantlle, Cyngor Gwynedd
Margaret Shakespeare		
M Jones	-	Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru
Parc Cenedlaethol Eryri		

DARPARWYR TWRISTIAETH A HOLWYD

Y Beuno - (Clynnog Fawr)

Bryn Eisteddfod - (Clynnog Fawr)

Bryn y Môr – (Dinas Dinlle)

Canolfan Fynydd Tanrallt - (Tanrallt)

Canolfan Ozanam - (Tanrallt)

Cwellyn Arms – (Rhyd Ddu)

Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfaï a Llyfni

Cynllun Goriad Gwyrdd Eryri - (Cyngor Gwynedd)

Fron Dirion – (Brynaerau, Pontllyfni)

Inigo Jones – (Groeslon)

Lleuar Fawr – (Llanllyfni)

Lynn R Papercrafts - (Penygroes)

Maes Carafannau Bae Caernarfon – (Dinas Dinlle)

Maes Carafannau Dinlle – (Dinas Dinlle)

Maes Carafannau Llyn y Gele – (Pontllyfni)

Maes Carafannau Morfa Lodge – (Dinas Dinlle)

Parc Gwledig Glynllifon – (Llandwrog)

QDI Aviation – (Maes Awyr Caernarfon, Dinas Dinlle)

Railways Unlimited / Railway Research Centre – (Y Barics, Nantlle)

Stables – (Llanwnda)

Talymignedd - (Nantlle)

Trigonos – (Plas Baladeulyn, Nantlle)

Tŷ Gwyn – (Llanllyfni)

Ty'n Llan – (Llandwrog)

Tŷ Mawr Guest House – (Rhyd Ddu)

BUSNESAU CYNHENID A HOLWYD

(h.y. busnesau heb fod yn canolbwyntio yn benodol ar dwristiaeth)

Co-op – (Penygroes)

Garej Povey – (Penygroes)

Homestyle Bakery – (Penygroes)

Y Quarry – (Llanllyfni)

Spar – (Penygroes)

Siop Campbell – (Carmel)

Siop Parry a Jones - (Penygroes)

Swyddfa Bost Penygroes – (Penygroes)

Swyddfa Bost Talysarn – (Talysarn)

Tafarn Pennionyn – (Groeslon)

SEFYDLIADAU A HOLWYD MEWN ARDALOEDD ERAILL

Big Rock Hotel – (Porthmadog)

Black Boy – (Caernarfon)

Cofi Roc – (Caernarfon)

Consortiwm Busnesau Llanberis

Co-op – (Pwllheli)

Emrys House – (Beddgelert)

Gegin Gefn – (Porthmadog)

Gwalia Cafe – (Pwllheli)

Gwesty'r Dolbadarn – (Llanberis)

Gwesty'r Heights – (Llanberis)

Macsen – (Caernarfon)

Penlan Fawr – (Pwllheli)

Pete's Eats – (Llanberis)

Prosiect Llanberis

Queen's – (Porthmadog)

Royal Goat – (Beddgelert)

Spar – (Caernarfon)

Spar – (Llanberis)

Spar – (Porthmadog)

Swyddfa Bost Beddgelert

Swyddfa Bost Caernarfon

Swyddfa Bost Llanberis

Swyddfa Bost Porthmadog

Swyddfa Bost Pwllheli

Tanronnen – (Beddgelert)

Tower Hotel – (Pwllheli)

DATBLYGIADAU I'R DYFODOL A GYFRANNODD

Bunkhouse Cymdeithas Seiont, Gwyrfai a Llyfni – (Pontllyfni)

Caffi Canolfan Talysarn – (Talysarn)

Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts – (Rhosgadfan)

Canolfan Uwchgwyrfai – (Clynnog Fawr)

Maes Pebyll Gloddfa Glai – (Talysarn)

Mrs F. L. Jones - (Canolfan Bwa Saeth Nebo)

Ysgol Beirianyddol Penyrsedd – (Nantlle)

**CRYNODEB A DADANSODDIAD O HOLIADURON
DARPARWYR BUSNESAU TWRISTIAETH DYFFRYN
NANTLLE**

8.1 NIFER A GYFLOGIR

	Nifer	Llawn Amser	Rhan Amser
MEYSYDD CARAFANNAU/ GWERSYLLA	5*	10	32
GWESTAI	4	19	16
TAFARNDAI (sy'n cynnig llety)	2	6	15
B&Bs A GUESTHOUSES	3	3	4
DARPARWYR BYTHYNNOD	1	2	
CANOLFANNAU ADDYSGIADOL	3	7	22
ATYNIADAU	3	12	14
GWERTHWYR ARBENIGOL	2	3	2
CYFANSWM	23	67	105

*Mae 2 faes carafannau arall yn y Dyffryn nad oedd yn rhan o'r arolwg

DARPAR GYNLLUNIAU

F L JONES (*ARCHERY*)
YSGOL BEIRIANYDDOL PENYRORSEDD
CANOLFAN UWCHGWYRFAI
CANOLFAN CAE'R GORS
'BUNKHOUSE' CYMDEITHAS BYSGOTA SEIONT GWYRFAI LLYFNI

8.2 TROSIANT

< £10,000	1
£10,000 - £50,000	5
£50,000 - £100,000	5
£100,00 - £250,000	3
>£250,000	4
Ddim yn gwybod eto	5

8.3 TROSIANT WRTH SECTOR

	<£10k	£10k – £50k	£50k - £100k	£100k – £250k	>£250k	Ddim yn gwybod
GWERSYLLA		2			2	1
GWESTAI			3			1
TAFARNDAI				1		1
B&Bs G/HOUSES	1	1				1
BYTHYNNOD		1				
ADDYSGIADOL		2		1		
ATYNIADAU				1	2	
GWERTHWYR		1	1			

8.4 HYD BUSNESAU AR GYFARTALEDD

CYFARTALEDD – 22 mlynedd a 7 mis

CARAFANNAU	36.8
GWESTAI	7.25
TAFARNDAI	18
B&Bs G/HOUSES	7.33
BYTHYNNOD	7
ADDYSGIADOL	11.3
ATYNIADAU	63
GWERTHWYR	5

8.5 NIFER Y GWELYAU A DDARPARIR

GWELYAU MEWN GWESTAI	99
GWELYAU MEWN TAFARNDAI	7
GWELYAU MEWN B&Bs	14
GWELYAU MEWN BYTHYNNOD	50
GWELYAU MEWN BUNKHOUSES	23
GWELYAU MEWN CANOLFANNAU ADDYSGIADOL	121
SAFLEOEDD STATIG	212*
SAFLEOEDD SYMUDOL	196*

* + Morfa Lodge

8.6 RHESYMAU DROS DDOD I'R DYFFRYN

TRAETH
CERDDED
LLEOLIAD CANOLOG
CEFN GWLAD
DEIFIO
TAWELWCH
SAFON Y LLE AROS
BEICIO
MOTOR BEICIO
RHEILFFORDD ERYRI
PYSGOTA
CYRSIAU
DIWYLLIANT
BYWYD GWYLLT

8.7 NIFER O YMWELWYR SYDD YN DOD YN ÔL

GWESTAI	40%; 40%	= 40%
TAFARNDAI	30%; 60%	= 45%
B&Bs	10%; 80%; 37%	= 42.3%
BYTHYNNOD	20%	= 20%
CANOLFANNAU ADDYSG*	95%; 100%; 95%	= 96.6%
MEYSYDD CARAFANNAU	80%; 35%; 75%; 60%	= 62.5%
ATYNIADAU	60%; 60%; 98%	= 72.6%

CYFARTALEDD CYFAN 55.57%

CYFARTALEDD YN DOD YN OL HEB GYNNWYS CANOLFANNAU ADDYSG
- * 48.73%

8.8 CYNNYDD / DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

	CYNNYDD	DIRYWIAD	TEBYG
GWESTAI	3		1
TAFARNDAI	1	1	
B&Bs	1		2
BYTHYNNOD	1		
CANOLFANNAU ADDYSG	2	1	
MEYSYDD CARAFANNAU	4	1	
ATYNIADAU	4	1	
CYFANSWM	16	4	3
CANRAN	69.50%	17.33%	13.00%

8.9 RHESYMAU DROS DWF YN Y FARCHNAD

POBOL YN CYMRYD GWYLIAU YN AMLACH - CYNNYDD MEWN
GWYLIAU BYR
TEITHIO DRAMOR YN DDRYTACH
TWF MEWN GWERSYLLA AM FOD GWESTAI YN DDRUD
BANER LAS AR DRAETH DINAS DINLLE
CWMNI’N CYNNIG GWASANAETH GWELL
MWY O BOBOL YN TREFNU AR Y WE
HAWS MARCHNATA AR Y WE
TWF MEWN AMRYWIAETH O ATYNIADAU YN LLEOL
POBOL YN CEISIO BYW’N IACHACH – MYND AM WYLIAU AWYR
AGORED
MAGU ENW DA YN Y FARCHNAD
MWY O ARIAN SBÂR GAN BOBOL
FFYRDD WEDI GWELLA
ARBENIGRWYDD MEWN MARCHNAD ARBENIGOL

8.10 RHESYMAU DROS DDIRYWIAD YN Y FARCHNAD

GWYLIAU TRAMOR RHAD
PENTREFI AR I LAWR; CYNNAL A CHADW GWAEL
PRIS PETROL
RHEOLAU IECHYD A DIOGELWCH LLYM (CANOLFAN OZANAM)

8.11 BUSNESAU SY’N ELWA O GYMORTH CYHOEDDUS

	ELWA	HEB ELWA
CYMORTH ARIANNOL	7 (33%)	14 (66%)
CYMORTH YMARFEROL	6 (29%)	15 (71%)

8.12 RHESYMAU DROS BEIDIO CAEL GRANTIAU

HEB EDRYCH
HEB GAEL
GORMOD O WAITH
CYFNOD AMSER RHY HIR
YN ERBYN EGWYDDORION BUSNES

8.13 CWMNIAU YN CYDWEITHIO O FEWN Y SECTOR

CYDWEITHIO	12	52%
DDIM YN CYDWEITHIO	11	48%

8.14 CWMNIAU YN CREDU Y BYDDAI MWY O GYDWEITHIO O FUDD

CYDWEITHIO O FYDD	18
CYDWEITHIO DDIM O FYDD	1
DDIM YN GWYBOD	4

8.15 DULLIAU MARCHNATA

SAFLE WE EU HUNAIN	16	69%
HYSBYSEBU YN Y WASG	7	30%
BYRDDAU CROESO	7	30%
PAMFFLEDI	5	22%
SNOWDONIA MOUNTAIN AND COAST	4	17%
ASiantaethau	3	13%
SAFLE WE POBOL ERAILL	3	13%
MARCHNATA UNIONGYRCHOL	3	13%
AA / RAC	1	4%
DIM MARCHNATA	1	4%

8.16 FYDDECH CHI'N CROESAWU STRATEGAETH FARCHNATA I'R DYFFRYN

BYDDWN	22	96%
DDIM YN POENI	1	4%

8.17 MATH O DDULLIAU MARCHNATA A GYNIGWYD

SAFLE GWE
PAMFFLEDI
DEFNYDDIO'R CHWAREL FEL CANOLBWYNT MARCHNATA
MARCHNATA DIWYLLIANT A HANES Y DYFFRYN
HYBU'R DEFNYDD O ARWYDDION BROWN

8.18 RHWYSTRAU I'R DIWYDIANT TWRISTIAETH A GYNIGWYD

TYMOR BYR

DIFFYG TACLUSRWYDD YN Y PENTREFI	(5)
DIFFYG LLEFYDD BWYTA YN Y DYFFRYN	(4)
DIFFYG LLEFYDD AROS	(2)
POLISI'AU ARWYDDION BROWN	(2)
DIM DARPARIAETH AR GYFER PLANT	(1)
CYFYNGU'R TYMOR GWERSYLLA	(1)
DINAS DINLLE WEDI EI DDYNODI'N ARDAL LIFOGYDD	(1)
TRAFFERTH CAEL STAFF WEDI EU HYFFORDDI	(1)
HEDDLU A	(1)
PARCIO	(1)
PRIS ATYNIADAU I YMWELWYR	(1)
DIFFYG MYNEDIAD I LEFYDD (ee Llynnoedd)	(1)
DIFFYG RHESWM I BOBOL STOPIO YN Y DYFFRYN	(1)
DIFFYG CYDWEITHREDU	(1)

TYMOR CANOL/HIR

DIFFYG ATYNIAD O BWYS	(8)
TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS	(5)
POLISI'AU CYNLLUNIO/Y CYNGOR	(5)
MARCHNATA	(2)

8.19 RHAGOLYGNON I'R BUSNES

DA	17	73%
PARHAU AR YR UN LEFEL	5	23%
GWAETHYGU	1	4%

8.20 FYDDECH CHI'N CROESAWU DATBLYGIAD SYLWEDDOL I'R DYFFRYN?

BYDDWN	16	69%
NA FYDDWN	2	8%
DIBYNNU AR Y CYNLLUN	5	23%

8.21 ARGRAFFIADAU O'R DIWYDIANT TWRISTIAETH YN Y DYFFRYN

POSITIF

MAE GAN Y DYFFRYN LAWER I'W GYNNIG	(1)
CYDWEITHREDIAD DA YN Y DYFFRYN	(2)
ATYNIADAU SYDD AR Y GWEILL YN OBEITHIOL	(1)

NEGATIF

GWAEL O'I GYM HARU AG ARDALOEDD ERAILL	(3)
DIFFYG ATYNIADAU	(8)
DIFFYG DATBLYGIAD	(5)
DIM DIGWYDDIADAU	(2)
ANODD RHEDEG BUSNES YMA	(1)
GORMOD O SIOPAU WEDI CAU	(1)

CRYNODEB A DADANSODDIAD O HOLIADUR DARPARWYR ARDALOEDD ERAILL

CAERNARFON

9.1 NIFER A GYFLOGIR

LLAWN AMSER	29	CYFARTALEDD -	5.8
RHAN AMSER (Yn y 5 Sefydliad)	25*	CYFARTALEDD -	6.25*

*Gwybodaeth am 4 sefydliad yn unig

9.2 CYFARTALEDD BUSNES SYDD YN DEILLIO O DWRISTIAETH

(Amcan) 43%

9.3 CYFARTALEDD AMRYWIAD TYMHOROL MEWN TROSIANT

(Amcan) +74% Yn y tymor gwyliau

Doedd dim llawer o wybodaeth i'w gael am amrywiaeth staff, gan fod nifer y staff yn aml yn aros yn debyg, ond bod yr oriau'n cynyddu.

9.4 TWF/DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

TWF - 2 AROS YN DEBYG - 2 DIRYWIAD - 1

9.5 YDI'R FARCHNAD DWRISTIAETH WEDI DATBLYGU'N LLAWN YNG NGHAERNARFON?

NAC YDI 4/5 (80%) YDI 1/5 (20%)

9.6 I BA RADDAU YR YDYCH YN CYDWEITHIO GYDA CHWMNÏAU ERAILL?

DIM 2 (40%) YCHYDIG 3 (60%) LLAWER 0

9.7 PA SEFYDLIADAU SYDD AR GAEL ER MWYN CYDWEITHREDU GYDA BUSNESAU ERAILL?

SIAMBR FASNACH CAERNARFON

9.8 NIFER A HOLWYD OEDD YN AELODAU O'R SIAMBR FASNACH

1/5 (20%)

9.9 ALL MWY O GYDWEITHREDU FOD O FYDD?

YN SICR 3 DDIM YN SIŴR 1 NA 1

9.10 DULLIAU MARCHNATA PRESENNOL

Safle gwe	(4)
Hysbysebu mewn cylchgronau	(1)
Hysbysebu mewn 'brochures'	(1)
Hysbysebu Corfforaethol	(1)
Hysbysebu fel cwmni cenedlaethol	(1)
Yellow Pages	(1)

9.11 RHWYSTRAU I'R FARCHNAD DWRISTIAETH A GYNIGWYD

Diffyg cynnal a chadw adeiladau	(2)
Dim digon i'w wneud	(1)
Diffyg buddsoddiad	(2)
Arwyddion Brown	(1)
Diffyg siopau o safon	(1)
Diffyg Cymorth Cyhoeddus	(1)

9.12 RHAGOLYGNON I'R BUSNES

DA 4 ANSICR 1 GWael 0

9.13 YMATEB CYFFREDINOL I SEFYLLFA'R DIWYDIANT TWRISTIAETH YNG NGHAERNARFON

Da iawn	(1)
Dim digon i'w wneud	(2)
Wedi dirywio dros y blynyddoedd	(1)
Angen ei wella	(1)
Gor-ddibynnol ar y castell	(1)
Angen mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau lleol	(1)

LLANBERIS

9.14 NIFER A GYFLOGIR

LLAWN AMSER	22	CYFARTALEDD -	4.4
RHAN AMSER	25	CYFARTALEDD -	5

(Yn y 5 Sefydliad)

9.15 CYFARTALEDD BUSNES SYDD YN DEILLIO O DWRISTIAETH

(Amcan) 55%

*Y ffigwr yma o 4 sefydliad

9.16 CYFARTALEDD AMRYWIAD TYMHOROL MEWN TROSIANT

(Amcan) +140% Yn y tymor gwyliau

*Y ffigwr yma o 4 sefydliad

9.17 NIFER O SWYDDI YCHWANEGOL SYDD YN CAEL EU CREU YN Y TYMOR GWYLIAU AR GYFARTALEDD.

LLAWN AMSER	2.9	RHAN AMSER	2.0
-------------	-----	------------	-----

9.18 TWF/DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

TWF - 3	AROS YN DEBYG - 2	DIRYWIAD - 0
---------	-------------------	--------------

9.19 YDI'R FARCHNAD DWRISTIAETH WEDI DATBLYGU'N LLAWN YN LLANBERIS?

NAC YDI	5/5 (100%)	YDI	0
---------	------------	-----	---

9.20 I BA RADDAU YR YDYCH YN CYDWEITHIO GYDA CHWMNIAU ERAILL?

DIM	1 (20%)	YCHYDIG	0	LLAWER	4 (80%)
-----	---------	---------	---	--------	---------

9.21 PA SEFYDLIADAU SYDD AR GAEL ER MWYN CYDWEITHREDU GYDA BUSNESAU ERAILL?

CONSORTIWM BUSNESAU LLANBERIS
PROSIECT LLANBERIS
SNOWDONIA ACTIVE
llanberis.org

9.22 NIFER A HOLWYD OEDD YN AELODAU O GONSORTIWM BUSNES LLANBERIS

9.23 ALL MWY O GYDWEITHREDU FOD O FYDD?

YN SICR 5 DDIM YN SIŴR 0 NA 0

9.24 DULLIAU MARCHNATA PRESENNOL

Safle gwe (3)
Pamffledi (1)
Hysbysebu fel cwmni cenedlaethol (2)

9.25 RHWYSTRAU I'R FARCHNAD DWRISTIAETH A GYNIGWYD

Meddylfryd pobol leol (2)
Diffyg datblygu'r llyn (1)
Diffyg Atyniadau (1)
Pobol ifanc ar y stryd yn y nos (1)
Marchnata (1)
Llywodraeth Leol (1)
Dim (1)

9.26 RHAGOLYGNON I'R BUSNES

DA 3 ANSICR 2 GWAEL 0

**9.27 YMATEB CYFFREDINOL I SEFYLLFA'R DIWYDIANT
TWRISTIAETH YN LLANBERIS**

Da iawn (4)
Llawer o bobol yn dod i'r ardal (2)
Twristiaid yn dod yn gyson 'rownd y flwyddyn (1)
Gellir gwneud yn well (1)
Twristiaid yn gwario rhy 'chydig (1)
Problemau gyda mynediad wrth ddilyn gwëith-
gweithgareddau awyr agored (fel paragleidio ac ati) (1)

BEDDGELERT

9.28 NIFER A GYFLOGIR

LLAWN AMSER	27	CYFARTALEDD -	5.4
RHAN AMSER (Yn y 5 Sefydliad)	6	CYFARTALEDD -	1.2

9.29 CYFARTALEDD BUSNES SYDD YN DEILLIO O DWRISTIAETH

(Amcan) 82.5% *Ffigwr o 4 sefydliad yn unig

9.30 CYFARTALEDD AMRYWIAD TYMHOROL MEWN TROSIANT

(Amcan)
Dim ffigwr pendant gan 4 sefydliad (+100% oedd yr unig ffigwr arall)

9.31 NIFER O SWYDDI YCHWANEGOL YN CAEL EU CREU YN Y TYMOR GWYLIAU AR GYFARTALEDD

LLAWN AMSER 3.5 RHAN AMSER 2

9.32 TWF/DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

TWF – 4 AROS YN DEBYG – 1 DIRYWIAD - 0

9.33 YDI'R FARCHNAD DWRISTIAETH WEDI DATBLYGU'N LLAWN YM MEDDGELERT?

NAC YDI 0 YDI 5/5 (100%)

9.34 I BA RADD AU YR YDYCH YN CYDWEITHIO GYDA CHWMNIAU ERAILL?

DIM 0 YCHYDIG 1 (20%) LLAWER 4 (80%)

9.35 PA SEFYDLIADAU SYDD AR GAEL ER MWYN CYDWEITHREDU GYDA BUSNESAU ERAILL?

BEDDGELERT TOURISM ASSOCIATION
beddgelerttourism.com

**9.36 NIFER A HOLWYD OEDD YN AELODAU O'R GRŴP
TWRISTIAETH**

5/5 (100%)

9.37 ALL MWY O GYDWEITHREDU FOD O FYDD?

YN SICR 1 DDIM YN SIŴR 2 NA 2

9.38 DULLIAU MARCHNATA PRESENNOL

Safle Gwe (2)
Marchnata Uniongyrchol (1)
Dim (3)

9.39 RHWYSTRAU I'R FARCHNAD DWRISTIAETH A GYNIGWYD

Problemau Traffig (1)
Problemau Parcio (2)
Y Tywydd (1)

9.40 RHAGOLYGN I'R BUSNES

DA 2 ANSICR 3 GWael 0

**9.41 YMATEB CYFFREDINOL I SEFYLLFA'R DIWYDIANT
TWRISTIAETH YM MEDDGELERT**

Da iawn (4)

PORTHMADOG

9.42 NIFER A GYFLOGIR

LLAWN AMSER	10	CYFARTELEDD-	2.0
RHAN AMSER (Yn y 5 sefydliad)	23	CYFARTELEDD-	4.6

9.43 CYFARTELEDD BUSNES SYDD YN DEILLIO O DWRISTIAETH

(Amcan) 43%

9.44 CYFARTELEDD AMRYWIAD TYMHOROL MEWN TROSIANT

(Amcan) +89% yn y tymor gwyliau.
*Ffigwr o'r 4 Sefydliad

Eto, doedd dim llawer o wybodaeth i'w gael am amrywiaeth staff, gan fod nifer y staff yn aml yn aros yn debyg, ond bod yr oriau'n cynyddu.

9.45 TWF / DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

TWF - 0 AROS YN DEBYG - 1 DIRYWIAD - 4

9.46 YDI'R FARCHNAD DWRISTIAETH WEDI DATBLYGU'N LLAWN YM MHORTHMADOG?

NAC YDI 4/5 (80%) YDI 1/5 (20%)

9.47 I BA RADDAU YR YDYCH YN CYDWEITHIO GYDA CHWMNÏAU ERAILL?

DIM 2 (40%) YCHYDIG 2 (40%) LLAWER 1 (20%)

9.48 PA SEFYDLIADAU SYDD AR GAEL ER MWYN CYDWEITHREDU GYDA BUSNESAU ERAILL?

SIAMBR FASNACH PORTHMADOG
porthmadog.com

9.49 NIFER A HOLWYD OEDD YN AELODAU O'R SIAMBR FASNACH

0/5 (0%)

9.50 ALL MWY O GYDWEITHREDU FOD O FUDD?

YN SICR 3 DDIM YN SIŴR 0 NA 2

9.51 DULLIAU MARCHNATA PRESENNOL

Safle we	(2)
Hysbysebu mewn cylchgronau	(1)
Hysbysebu fel cwmni cenedlaethol	(1)
Dim	(2)

9.52 RHWYSTRAU I'R FARCHNAD DWRISTIAETH A GYNIGWYD

Cwsmeriaid yn mynd dramor am wyliau	(1)
Rheolau Cynllunio	(1)
Pobl ifanc anystywallt ar y strydoedd yn y nos	(1)
Asiantaethau Twristiaeth yn cymryd gormod o gomisiwn	(1)
Staff wedi eu hyfforddi yn anodd eu cael	(1)
Y Tywydd	(1)

9.53 RHAGOLYGNON I'R BUSNES

DA 2 ANSICR 3 GWael 0

9.54 YMATEB CYFFREDINOL I SEFYLLFA'R DIWYDIANT TWRISTIAETH YM MHORTHMADOG

Da iawn	(4)
Digon o bobol yn yr ardal	(1)
Angen Tacluso	(1)
Angen Marchnata	(1)

PWLLHELI

9.55 NIFER A GYFLOGIR

LLAWN AMSER	36	CYFARTALEDD -	7.2
RHAN AMSER	56	CYFARTALEDD -	11.2
(Yn y 5 Sefydliad)			

9.56 CYFARTALEDD BUSNES SYDD YN DEILLIO O DWRISTIAETH

(Amcan) 53.06%

9.57 CYFARTALEDD AMRYWIAD TYMHOROL MEWN TROSIANT

(Amcan) +66% Yn y tymor gwyliau

Eto, doedd dim llawer o wybodaeth i'w gael am amrywiaeth staff, gan fod nifer y staff yn aml yn aros yn debyg, ond bod yr oriau'n cynyddu.

9.58 TWF/DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

TWF – 1 AROS YN DEBYG – 0 DIRYWIAD - 4

9.59 YDI'R FARCHNAD DWRISTIAETH WEDI DATBLYGU'N LLAWN YM MHWLLHELI?

NAC YDI 5/5 (100%) YDI 0

9.60 I BA RADDAU YR YDYCH YN CYDWEITHIO GYDA CHWMNIAU ERAILL?

DIM 4 (80%) YCHYDIG 0 LLAWER 1 (20%)

9.61 PA SEFYDLIADAU SYDD AR GAEL ER MWYN CYDWEITHREDU GYDA BUSNESAU ERAILL?

SIAMBR FASNACH PWLLHELI

9.62 NIFER A HOLWYD OEDD YN AELODAU O'R SIAMBR FASNACH

1/5 (20%)

9.63 ALL MWY O GYDWEITHREDU FOD O FYDD?

YN SICR - 4 DDIM YN SIŴR - 1 NA - 0

9.64 DULLIAU MARCHNATA PRESENNOL

Safle gwe (1)
Hysbysebu mewn cylchgronau (1)
Hysbysebu fel cwmni cenedlaethol (2)
Dim Marchnata (1)

9.65 RHWYSTRAU I'R FARCHNAD DWRISTIAETH A GYNIGWYD

Llywodraeth Leol (3)
Diffyg atyniadau (1)
Diffyg datblygu'r marina (3)
Diffyg cynnal a chadw (1)
Oriau agor siopau (1)

9.66 RHAGOLYGNON I'R BUSNES

DA 2 ANSICR 1 TEBYG 1 GWAEL 0

9.67 YMATEB CYFFREDINOL I SEFYLLFA'R DIWYDIANT TWRISTIAETH YM MHWLLHELI

Da iawn (1)
Dim digon i'w wneud/Diffyg atyniadau (1)
Gweld colli Butlins (1)

Traeth Da	(1)
Diffyg Marchnata	(1)

CRYNODEB O'R HOLL ARDALOEDD

9.68 NIFER A GYFLOGIR

LLAWN AMSER AR GYFARTALEDD -	4.96
RHAN AMSER AR GYFARTALEDD -	5.65

9.69 CYFARTALEDD BUSNES SYDD YN DEILLIO O DWRISTIAETH

(Amcan) 43%

9.70 CYFARTALEDD AMRYWIAD TYMHOROL MEWN TROSIANT

(Amcan) +92.25% Yn y tymor gwyliau

9.71 TWF/DIRYWIAD YN Y FARCHNAD

TWF – 40% AROS YN DEBYG – 24% DIRYWIAD - 36%

9.72 I BA RADDAU YR YDYCH YN CYDWEITHIO GYDA CHWMNIAU ERAILL?

DIM 36% YCHYDIG 24% LLAWER 40%

9.73 NIFER A HOLWYD OEDD YN AELODAU O FUDIADAU CYDWEITHREDU

44%

9.74 RHAGOLYGN I'R BUSNES

DA 52% ANSICR 40% TEBYG 4% GWAEL 4%

9.75 DULLIAU MARCHNATA PRESENNOL

Safle gwe	48%
Hysbysebu fel cwmni cenedlaethol	24%
Hysbysebu mewn cylchgronau	12%
Hysbysebu mewn 'brochures'	4%
Hysbysebu Corfforaethol	4%
Yellow Pages	4%
Marchnata Uniongyrchol	4%
Pamffledi	4%
Dim yn hysbysebu	24%

9.76

	GWESTAI	TAFARNDAI	SIOPAU	SWYDDFEYDD POST	CAFFI
		-			
Cyfartaledd Staff Llawn amser	5.8	5.4	4.7	2.4	7
Cyfartaledd Staff Rhan amser	8.6	2.0	11	2.2	4
% Busnes o dwristiaeth	62%	63%	52%	20%	58%
Amrywiad Tymhorol		140%	81.7%	30%	152%
Staff Ychwanegol			+4.25		
Twf mewn busnes	40%	40%	20%	20%	60%
Dirywiad mewn busnes	20%	40%	60%	40%	20%
Busnes sefydlog	40%	20%	20%	40%	20%
Cydweithrediad?					
Da	40%	60%	20%	0%	40%
Ychydig	40%	40%	0%	40%	40%
Dim	20%	0%	80%	60%	20%
Mwy o gydweithredu?					
Ia	60%	80%	100%		60%
Na	40%	20%	0%		40%
% Gyda safle gwe (annibynnol)	80%	80%	0%	20%	40%
Rhagolygon Da	100%	40%	40%	0%	60%
Rhagolygon Ansicr	0%	40%	60%	100%	20%
Rhagolygon Tebyg	0%	20%	0%	0%	20%
Rhagolygon Gwael	0%	0%	0%	0%	0%

CRYNODEB A DADANSODDIAD O HOLIADURON DARPARWYR BUSNES CYNHENID Y DYFFRYN

10.1 NIFER A GYFLOGIR YM MHOB BUSNES (Ar Gyfartaledd)

Llawn Amser	2.4
Rhan Amser	2.85

10.2 AMCANGYFRIF O'R CANRAN O'R BUSNES SYDD YN DOD O DWRISTIAETH

5.3%

10.3 AMRYWIAD TYMHOROL MEWN BUSNES

+8% Yn y tymor gwyliau

10.4 SWYDDI YCHWANEGOL SYDD YN CAEL EU CREU YN Y TYMOR GWYLIAU AR GYFARTALED

+0.25 Yn y tymor gwyliau

10.5 TWF/DIRYWIAD YN Y SECTOR DWRISTIAETH

TWF	10%
SEFYDLOG	20%
DIRYWIAD	50%
DIM DIGON I SYLWI ARNO	20%

10.6 RHESYMAU A RODDWDYD DROS DDIRYWIAD

Gwyliau Tramor Rhad	(2)
Ffordd Osgoi	(2)

10.7 RHESYMAU A RODDWDYD DROS GYNNYDD

Mwy o bobol yn dod i'r ardal	(2)
------------------------------	-----

10.8 Y GRADDAU MAE CWMNIAU YN CYDWEITHREDU YN LLEOL

Da	40%
Ychydig	40%
Dim	20%

10.9 ALLAI MWY O GYDWEITHREDU FOD O FYDD?

Gallai	70%
Efallai	10%
Na	20%

10.10 FYDDECH CHI’N CROESAWU STRATEGAETH FARCHNATA I’R DYFFRYN?

Byddwn	90%
Ddim yn siŵr	10%
Na fyddwn	0%

10.11 RHWYSTRAU A GYNIGWYD SYDD YN ATAL DATBLYGIAD TWRISTIAETH YN Y DYFFRYN

Diffyg Atyniadau	(5)
Methiant datblygu chwarel Dorothea	(2)
Diffyg diddordeb yn lleol	(2)
Diffyg Buddsoddiad	(2)
Diffyg marchnata	(2)
Diffyg gwybodaeth am atyniadau presennol	(1)
Ffordd Osgoi	(1)
Blerwch/Diffyg cynnal a chadw	(1)
Pobol ifanc ar y strydoedd yn y nos	(1)
Diffyg Gwasanaethau Cyhoeddus	(1)
Dim i blant ei wneud	(1)

10.12 RHAGOLYGNON BUSNES I’R DYFODOL

Da	40%
Sefydlog	20%
Ansicr	30%
Dirywio	20%

10.13 FYDDECH CHI’N CROESAWU DATBLYGIAD SYLWEDDOL YM MAES TWRISTIAETH YN Y DYFFRYN?

Byddwn	100%
Na Fyddwn	0%

10.14 ARGRAFFIADAU O SEFYLLFA’R DIWYDIANT TWRISTIAETH YN Y DYFFRYN AR HYN O BRYD

Sâl Iawn	(4)
Dim yma ar hyn o bryd	(4)
Diffyg Atyniadau	(2)
Gall llawer mwy cael ei wneud	(2)
Prin yn bodoli	(1)